



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhaglen Gwella Canlyniadau i Blant

Adroddiad Etifeddiaeth

Rhagair



Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Etifeddiaeth rhaglen Gwella Canlyniadau i Blant Llywodraeth Cymru, a fu ar waith o 2016 hyd 2021 dan oruchwyliaeth Grŵp Cyngori'r Gweinidog.

Hoffwn yn gyntaf gydnabod cyfraniad amhrisiadwy'r cyn Aelod o'r Senedd, David Melding, a Dan Pitt yn eu rolau fel Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Grŵp. Mae eu hymrwymiad a'u treiddgarwch dros y pum mlynedd diwethaf wedi bod yn hollbwysig wrth inni fwrw ymlaen â'r rhaglen Gwella Canlyniadau i Blant.

Ar ddechrau'r daith, roedd gwaith hirdymor David i hyrwyddo hawliau plant yn cyd-fynd yn berffaith â blaenoriaethau'r rhaglen, ac roedd cael Dan, sydd â phrofiad o fod mewn gofal, yn Is-gadeirydd o gymorth i sicrhau bod pwyslais clir yn cael ei roi ar y materion sydd o bwys i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Hoffwn hefyd ddiolch i holl aelodau'r Grŵp am eu cymorth a'u cyngor. Ni fyddem wedi gallu rhoi'r rhaglen ar waith mor llwyddiannus heb eu cymorth, eu harbenigedd a'u hymroddiad.

Rwyf am dynnu sylw at rai enghreifftiau o'r hyn y mae'r rhaglen wedi'i gyflawni:


- Sefydlu Cronfa Dydd Gŵyl Dewi i helpu pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal i symud tuag at fyw'n annibynnol.
- Datblygu ac ehangu gwasanaethau ar ffiniau gofal ym mhob awdurdod lleol.
- Cyflwyno'r gwasanaeth Adlewyrchu i helpu menywod y mae plentyn wedi ei symud oddi wrthynt yn orfodol.
- Ehangu cymorth Cyngorwyr Personol hyd at 25 mlwydd oed.
- Annog cynlluniau Prentisiaethau a Hyfforddeiaethau Awdurdodau Lleol i bobl ifanc sy'n gadael gofal.
- Llundio safonau cenedlaethol ar gyfer Swyddogion Adolygu Annibynnol ac Ymwelwyr Annibynnol.
- Cymorth i roi'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol ar waith a datblygu brand cenedlaethol cyffrous a fydd yn hybu lleoliadau maethu.
- Buddsoddi £15m yn y Gronfa Gofal Integredig i gefnogi plant a theuluoedd ar ffiniau gofal, gwaith ailuno a gwasanaethau therapiwtig.
- Gweithio gyda'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ddatblygu darpariaeth therapiwtig i blant ag anghenion cymhleth.

- Cytuno ar ddull gweithredu i atgyfnerthu rhianta corfforaethol ledled y sector cyhoeddus.
- Datblygu dull gweithredu integredig i wella cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal.

Mae'r adroddiad yn rhoi darlun medrus o'n siwrnai, a pha mor bell rydym wedi dod. Mae llawer o waith i'w wneud o hyd ac mae'r adroddiad yn rhoi sylw i'r prosiectau trawsnewidiol allweddol sy'n dal i fynd rhagddynt ac y byddwn yn adeiladu arnynt er mwyn llunio ein gwasanaethau i blant at y dyfodol.

Mae dod atom ein hunain wedi effaith COVID-19 yn her sylweddol. Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Plant ledled Cymru wedi dangos cryn gadernid a sefydlogrwydd yn ystod y pandemig, a hynny oherwydd ymdrech aruthrol awdurdodau lleol, eu staff a'u gofalwyr, a'r trydydd sector i barhau i ddarparu cymorth i blant a theuluoedd. Gwyddom ei bod yn hanfodol parhau i gynnig y cymorth hwnnw, a sicrhau yn enwedig ein bod, gyda'n gilydd, yn gofalu am iechyd meddwl a llesiant plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal wrth inni ddod allan o'r pandemig.

Rwy'n mawr obeithio y byddwch yn mwynhau darllen yr Adroddiad Etifeddiaeth, gan ddathlu llwyddiannau'r pum mlynedd diwethaf ac ystyried ar yr un pryd y blaenoriaethau y mae'n nodi y bydd angen bwrw ymlaen â hwy yn ystod tymor y Senedd newydd.



Julie Morgan AS

Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol

Rhagair y Cadeirydd



Bydd parhau i wella canlyniadau i blant mewn gofal yn un o'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer y 6ed Senedd. Mae'r ddyletswydd gofal hon hefyd yn ymestyn i'r rhai sy'n gadael gofal y mae angen cymorth effeithiol arnynt er mwyn sicrhau eu bod yn byw bywyd boddhaus, annibynnol a chynhyrchiol. Mae cyrhaeddiad pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn gyson is na'u cyfoedion, ac maent yn llawer mwy tebygol o gael canlyniadau andwyol sy'n llesteirio eu potensial. Mae gormod o blant yn dod yn rhan o'r system ofal, sy'n golygu nad yw'r cymorth teuluol yn aml ar gael lle y gallai sicrhau'r canlyniadau gorau.

Dros y pum mlynedd diwethaf, mae Grŵp Cyngori'r Gweinidog wedi cyngori ar ddatblygiadau polisi allweddol i ymateb i'r heriau hyn, a disgrifir y rhai pwysicaf yn yr adroddiad etifeddiaeth hwn. Yn bwysig ddigon, rydym hefyd yn rhestru'r meysydd lle mae cynnydd wedi bod yn anghyson neu nad yw wedi bod yn ddigon cyflym. Un agwedd bwysig arall ar waith Grŵp Cyngori'r Gweinidog fu'r gwaith ymchwil a dadansoddi data, fel y gellir llenwi bylchau mewn gwybodaeth a nodi dulliau gweithredu mwy effeithiol. Ac mae'r Grŵp hefyd wedi bod yn awyddus i nodi ac argymhell arferion gorau ac ystyried sut y gellir eu lledaenu a'u gwneud yn fwy systematig.

Mae Grŵp Cyngori'r Gweinidog wedi cael ei seilio ar waith tîm a chyfranogiad rhanddeiliaid. Mae'r trydydd sector wedi bod yn arbennig o hael o ran ei ymrwymiad i'r rhaglen waith, a hoffwn sôn am rôl Voices from Care yn benodol. Dan Pitt, person ifanc o Voices from Care sydd wedi cael profiad o fod mewn gofal, oedd ein Dirprwy Gadeirydd eithriadol a sicraodd fod y Grŵp yn ceisio cyfranogiad effeithiol gan y rhai mewn gofal a'r rhai sydd wedi gadael gofal. Gwnaeth y sector cyhoeddus, o awdurdodau lleol a sefydliadau iechyd i'r heddlu a llawer o asiantaethau eraill, gyfraniad mawr hefyd. Heb ysgrifenyddiaeth benodol, y "peiriandy", a ddarparwyd gan swyddogion Llywodraeth Cymru, ni fyddai ein gwaith wedi bod yn bosibl o gwbl.

Rydym wedi gweithio gyda nifer o Weinidogion Llywodraeth Cymru dros y pum mlynedd diwethaf, gan gynnwys Julie Morgan AS yn fwyaf diweddar. Roedd parodrwydd Llywodraeth Cymru i wrando, myfyrio a gweithredu ar ein cyngor yn allweddol i sicrhau effeithiolrwydd y Grŵp a'r rhaglen Gwella Canlyniadau i Blant.

Bu'n anrhydedd cadeirio grŵp mor ymroddedig o randdeiliaid, a oedd wedi ymrwymo i wella canlyniadau i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Gobeithio y bydd yr adroddiad etifeddiaeth hwn yn ddefnyddiol i chi ac yn gofnod gonest o'r hyn rydym wedi ei ddysgu, yr hyn rydym wedi ei gyflawni a'r hyn, er inni ddechrau arno, nad yw wedi ei gwblhau.

A handwritten signature in black ink that reads "David Melding". The signature is written in a cursive style with a long, sweeping tail on the final letter.

David Melding

Cadeirydd Grŵp Cyngori'r Gweinidog
ar Wella Canlyniadau i Blant

Cynnwys

1. Diben yr Adroddiad Etifeddiaeth	6
2. Gweledigaeth ar gyfer Plant sydd â Phrofiad o fod mewn Gofal	7
3. Trefniadau Llywodraethu	9
4. Ymchwil a'r sylfaen dystiolaeth sy'n datblygu	11
5. Cyflawni	13
Ffrwd Waith 1: Lleihau nifer y plant mewn gofal	13
Ffrwd Waith 2: Darparu a chomisiynu ystod hyblyg, fforddiadwy a digonol o leoliadau o ansawdd uchel	22
Ffrwd Waith 3: Helpu plant sy'n derbyn gofal i gael y daith orau bosibl drwy ofal ac i fod yn oedolion	32
6. Cyflawniadau System Gyfan	43
7. Casgliad	47

1. Diben yr Adroddiad Etifeddiaeth

Sefydlwyd y rhaglen Gwella Canlyniadau i Blant yn 2016 i ddatblygu dull gweithredu cenedlaethol o wella canlyniadau i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal a nodi pa gamau ymyrryd yn gynnar ac atal y gellir eu cymryd i leihau nifer y plant sy'n mynd i mewn i'r system ofal.

Mae'r rhaglen wedi bod ar waith drwy gydol tymor y Senedd hon (2016-2021), ac mae wedi cael cefnogaeth drawslywodraethol a thraws-sector, o dan gadeiryddiaeth David Melding AS. Mae aelodaeth eang y grŵp wedi cynnwys yr holl arweinwyr ac asiantaethau allweddol sy'n ymwneud â bywydau plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal, gan gynnwys gwasanaeth plant awdurdodau lleol, y trydydd sector, y Comisiynydd Plant a chynrychiolwyr o feysydd iechyd, addysg, cyfiawnder ieuenctid, cyfiawnder teuluol a thai.

Nod yr adroddiad hwn yw disgrifio'r daith dros y pum mlynedd diwethaf. Bu'r rhaglen Gwella Canlyniadau i Blant yn uchelgeisiol ac yn eang ei chwmpas, ac mae wedi cynnwys prosiectau byrdymor, tymor canolig a hirdymor gyda'r nod o lunio tirwedd gwasanaethau cymdeithasol plant yn y dyfodol. Wrth inni nesáu at ddiwedd tymor y Senedd hon, daw'r rhaglen Gwella Canlyniadau i Blant i ben. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r cyflawniadau a wnaed a'u heffaith ar blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal, y gwasanaethau sydd ar waith i'w cefnogi a'r gweithlu.

Fodd bynnag, nid yw'r daith tuag at welliant yn dod i ben yma. Mae arferion a pholisïau proffesiynol yn datblygu ac yn newid yn barhaus mewn ymateb i ymchwil, mentrau a datblygiadau newydd ym maes gofal cymdeithasol plant a chymorth i deuluoedd. Bydd angen gwneud rhagor o waith a bydd agweddau penodol, yn anochel, yn parhau. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn nodi rhai o'r prosiectau a fydd yn drawsnewidiol yn y tymor hwy sy'n dal i fynd rhagddynt, a'r cynlluniau sydd ar waith o hyd i'w cwblhau.

Bydd angen parhau i ganolbwyntio ar yr eitemau 'etifeddol' hyn yn ystod tymor y Senedd nesaf, a chânt eu cynnig fel meysydd â blaenoriaeth y bydd angen i'r weinyddiaeth newydd, ac unrhyw grŵp strategol/rhanddeiliaid a fydd yn dilyn Grŵp Cynghori'r Gweinidog, fwrw ymlaen â nhw.

2. Gweledigaeth ar gyfer Plant sydd â Phrofiad o fod mewn Gofal

Yn hanesyddol, mae ymchwil wedi dangos yn gyson fod perthynas gref rhwng cyfraddau amddiffyn plant a phlant mewn gofal yng Nghymru ac amddifadedd mewn ardaloedd lleol. Yn aml, mae gwaith gwasanaethau cymdeithasol plant wedi canolbwyntio ar gymunedau tlotaf Cymru. Mae canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal wedi bod yn wael yn gyffredinol. Mae plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn llai tebygol o ennill cymwysterau addysgol da, mae ganddynt fwy o anghenion o ran iechyd a thai, ac maent yn fwy tebygol o ymwneud â chamddefnyddio sylweddau a dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol.

Nodir ein fframwaith statudol i wella canlyniadau i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal a'r rhai ar ffiniau gofal yn Rhan 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae hwn yn rhoi mwy o bwyslais ar ddargyfeirio plant oddi wrth y system ofal a rhoi cymorth i alluogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd. O ran plant sydd eisoes mewn gofal, mae hyn yn golygu gwneud pob ymdrech i ailuno teuluoedd lle y bo'n briodol, er budd y plentyn a phan fydd yn ddiogel gwneud hynny.

Nododd Llywodraeth Cymru ei gweledigaeth a'i blaenoriaethau allweddol i'w cyflawni yn ystod tymor y Senedd hon yn ei Rhaglen Lywodraethu – **Symud Cymru Ymlaen (2016)**, sy'n ymrwymo i:

- **Archwilio ffyrdd o sicrhau bod plant mewn gofal yn mwynhau'r un cyfleoedd bywyd â phlant eraill, a diwygio'r ffordd y gofelir amdanynt os bo angen.**
- **Gweithio i leihau defnydd diangen o ofal, gan ddatblygu ar waith y Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd i gefnogi'r plant a'r teuluoedd mwyaf agored i niwed yng Nghymru.**

Ailbwysleisiwyd yr ymrwymadau hyn yn ein strategaeth genedlaethol **Ffyniant i Bawb (2017)**, sy'n cynnwys gofal cymdeithasol fel un o'r pum maes â blaenoriaeth, gyda chamau gweithredu i wneud y canlynol:

- **Gwella cyrhaeddiad addysgol a chyfleoedd bywyd plant sydd mewn gofal, gan roi lle canolog i'r plentyn, drwy sicrhau bod gwasanaethau addysg, gwasanaethau cymdeithasol, a gwasanaethu eraill, yn cydweithio.**
- **Cryfhau gwasanaethau ar ffiniau gofal er mwyn rhoi cymorth amserol i deuluoedd a lleihau'r niferoedd y mae angen darparu gofal ar eu cyfer a chynnig cymorth yn y cyfnod allweddol o newid ar ôl i blant sy'n gadael gofal gyrraedd 16 oed, er mwyn iddynt fedru manteisio ar addysg bellach a dod o hyd i swyddi a thai.**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi'r fframwaith y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus yng Nghymru weithio gyda'i gilydd oddi mewn iddo er mwyn gwella llesiant Cymru, gan weithio mewn ffordd integredig a chydweithredol, ymgysylltu â phobl a chymunedau i ystyried yr hirdymor, a helpu i atal problemau rhag codi neu waethygu.

Cydnabyddir yn gyffredinol na all gwasanaethau cymdeithasol ar eu pen eu hunain wella cyfleoedd bywyd i'r rhai sydd wedi cael profiad o'r system ofal. Yn hytrach, mae angen dull gweithredu trawslywodraethol effeithiol, sy'n gweithio ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus, gyda phob asiantaeth yn ysgwyddo ei chyfrifoldebau am gefnogi plant sy'n derbyn gofal fel busnes craidd.

3. Trefniadau Llywodraethu

Y Rhaglen Gwella Canlyniadau i Blant

Sefydlwyd y rhaglen mewn ymateb uniongyrchol i weledigaeth a heriau *Symud Cymru Ymlaen a Ffyniant i Bawb*; fel rhaglen newid i wireddu ein gweledigaeth a gwella gwasanaethau i blant a theuluoedd yng Nghymru y mae angen cymorth arnynt.

Ymgwymerwyd â gweithgarwch cychwynnol (Cam 1) yn 2015–16.

Canolbwyntiodd y gwaith hwn ar rôl y Swyddog Adolygu Annibynnol ac Ymwelwyr Annibynnol, prosesau awdurdodau lleol a strategaethau rheoli risg, cynigion ar gyfer Fframwaith Maethu Cenedlaethol, a chymorth atal ac ymyrryd yn gynnar. Gan adeiladu ar y dystiolaeth a nodwyd ar Gam 1, sefydlwyd y rhaglen Gwella Canlyniadau i Blant i gyflawni tair blaenoriaeth gyffredinol:

- Atal plant rhag dod yn rhan o'r system ofal ac ymyrryd yn gynnar
- Gwella canlyniadau i blant sydd eisoes mewn gofal
- Helpu'r rhai sy'n gadael gofal i gael dyfodol llwyddiannus a byw'n annibynnol.

Grŵp Cyngori'r Gweinidog

Er mwyn rhoi'r ffocws a'r ymdrech angenrheidiol, sefydlwyd Grŵp Cyngori'r Gweinidog i fwrw ymlaen â'r rhaglen a rhoi cyngor arbenigol i Weinidogion Cymru ar amrywiaeth eang o faterion strategol a gweithredol sy'n ymwneud â gwella canlyniadau i blant.

Er mwyn cydnabod y consensws trawsbleidiol yn y Cynulliad o blaid gwella canlyniadau i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal, gwahoddwyd David Melding i gadeirio'r grŵp. Bu David yn eiriolwr cadarn dros blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal drwy gydol ei gyfnod yn y Cynulliad, ac mae wedi meithrin cryn arbenigedd fel cadeirydd y grŵp trawsbleidiol ar blant sy'n derbyn gofal.

Mae Grŵp Cyngori'r Gweinidog wedi chwarae rôl allweddol yn y gwaith o oruchwylio datblygiad polisi, gan helpu i nodi bylchau posibl, creu syniadau, rhoi cyngor ar yr hyn sy'n gweithio orau'n ymarferol i bob golwg, a monitro effaith y rhaglen newid. Mae'r grŵp wedi cyfarfod yn rheolaidd bob chwarter neu bob tymor.

Mae cydweithio wedi bod yn hanfodol i'r grŵp. Mae dwy ffrwd waith wedi cael eu cadeirio gan bennaeth gwasanaethau plant un o'r awdurdodau lleol, gyda chymorth is-gadeirydd o'r trydydd sector. Mae trydedd ffrwd waith wedi cael ei chadeirio gan gynrychiolydd o'r trydydd sector, gyda chymorth is-gadeirydd sy'n bennaeth gwasanaethau plant. Sefydlwyd Grŵp Gweithredol, a oedd yn cynnwys cadeiryddion ac is-gadeiryddion y tair ffrwd waith, Gofal Cymdeithasol Cymru ac aelodau o'r tîm Gwella Canlyniadau i Blant. Mae'r Grŵp Gweithredol yn goruchwylio rhaglen waith Grŵp Cyngori'r Gweinidog, gan gynnwys y rhyngwynebau rhwng ffrydiau gwaith a'r broses o ddarparu'r cyllid sy'n cael ei ddyrannu i gefnogi meysydd gwaith. Y tîm Gwella Canlyniadau i Blant o fewn Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio Llywodraeth Cymru sydd wedi bod yn gyfrifol am reoli'r rhaglen o ddydd i ddydd.

Mae Grŵp Cynghori'r Gweinidog wedi chwarae rhan allweddol yn y broses o greu momentwm ac ennyn brwdfrydedd dros y rhaglen, ac mae sefydliadau ac aelodau o'r Grŵp Gweithredol wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb a'r atebolrwydd am gyflwyno'r rhaglen. Yn gynnar iawn mabwysiadodd Grŵp Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan y rhaglen Gwella Canlyniadau i Blant fel ei raglen ei hun, gan helpu i ysgogi gweithgarwch ar lefel llywodraeth leol, a llywio arferion gweithwyr cymdeithasol a'r ffordd y darperir gwasanaethau.

Mae aelodaeth eang ac uwch-arweinwyr Grŵp Cynghori'r Gweinidog yn adlewyrchu cyfrifoldebau rhianta corfforaethol cyffredinol gwasanaethau cyhoeddus, ac ehangder y gwasanaethau sydd ar waith i gefnogi plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Mae Grŵp Cynghori'r Gweinidog wedi cynnig fforwm sengl lle y gall partneriaid o bob sector a phortffolio polisi gyfarfod ar lefel strategol, trafod materion gweithredol a gwella trefniadau partneriaeth a rhyngwynebau rhwng gwasanaethau.

Mae Grŵp Cynghori'r Gweinidog wedi bod yn weithredol wrth dynnu sylw at faterion allweddol, gan helpu i godi proffil plant sy'n derbyn gofal ar lefel strategol ac ar lefel polisi. Mae'r dull o reoli'r rhaglen a fabwysiadwyd gan y Grŵp Gweithredol wedi rhoi llwyfan lle mae'r gwaith o ddatblygu polisi ym maes gwasanaethau plant wedi parhau i fod yn un o brif flaenoriaethau'r Llywodraeth, fel y dangoswyd gan Bapur y Cabinet *Gwella Canlyniadau i Blant* yn 2018.

Cam 2: Fframwaith ar gyfer Gweithredu (2017-2020) – Ar adeg ei sefydlu, roedd y rhaglen Gwella Canlyniadau i Blant yn cynnwys 25 o feysydd gwaith a oedd yn cwmpasu ymchwil, prosiectau peilot, datblygiadau polisi a gwelliannau i ymarfer proffesiynol. Nodwyd y rhain yn *Fframwaith ar gyfer Gweithredu (2017–2020)* y Grŵp Gweithredol, a ddisgrifiodd y weledigaeth ar gyfer sicrhau bod cyfleoedd bywyd plant sy'n derbyn gofal yn debyg i rai plant eraill.

Cam 3: Rhaglen Waith Wedi'i Hadnewyddu (2019-2021) – Yn ystod tymor y Senedd hon, wrth i feysydd gwaith gael eu cwblhau ac wrth i flaenoriaethau newydd ddod i'r amlwg, mae'r rhaglen Gwella Canlyniadau i Blant wedi datblygu ac wedi ymgymryd â meysydd newydd, yn amodol ar gytundeb Grŵp Cynghori'r Gweinidog. O ganlyniad, datblygwyd rhaglen waith fyrrach a mwy strategol ar gyfer Cam 3 yn 2019, a oedd yn canolbwyntio ar 12 o feysydd allweddol sydd i'w cyflawni, a fydd yn fodd i roi'r rhaglen ar waith yn effeithiol a gwella canlyniadau i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

Mae gweithgarwch wedi cael ei drefnu o dan dair ffrwd waith:

1. Lleihau'n ddiogel nifer y plant sydd angen gofal
2. Darparu a chomisiynu ystod hyblyg, fforddiadwy a digonol o leoliadau o ansawdd uchel
3. Helpu plant sy'n derbyn gofal i gael y daith orau bosibl drwy ofal ac i fod yn oedolion

Yn 2018, cynhaliwyd archwiliad mewnol o'r rhaglen Gwella Canlyniadau i Blant a'i threfniadau llywodraethu gan Lywodraeth Cymru, a roddodd y radd sicrwydd uchaf.

4. Ymchwil a'r sylfaen dystiolaeth sy'n datblygu

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, bu nifer o adroddiadau pwysig yn ystyried y cynnydd yn nifer y plant mewn gofal.

Care Crisis Review (2018) – Cynhaliodd y Grŵp Hawliau Teuluol adolygiad ar lefel Cymru a Lloegr o'r rhesymau dros y cynnydd mewn gweithrediadau gofal a nifer y plant mewn gofal. Gweithiodd tîm yr adolygiad yn agos gyda rhanddeiliaid yng Nghymru ac aelodau o Grŵp Cynghori'r Gweinidog er mwyn sicrhau bod y dirwedd yng Nghymru yn cael ei hadlewyrchu'n briodol yn yr adroddiad.

Cyhoeddwyd *The Care Crisis Review* ym mis Mehefin 2018, a thynnodd sylw at yr ymdeimlad o argyfwng ymhlith llawer o bobl ifanc, teuluoedd a'r rhai sy'n gweithio o fewn y system oherwydd y defnydd cynyddol o'r llysoedd².

Yng Nghymru a Lloegr, cyrhaeddodd nifer y ceisiadau am orchmynion gofal y lefel uchaf erioed yn 2017, ac mae nifer y plant sy'n derbyn gofal ar ei lefel uchaf ers cyflwyno Deddf Plant 1989. Mae nifer y plant mewn gofal wedi bod yn cynyddu'n gyson ers dechrau'r 1990au, heblaw am gyfnod yn Lloegr yng nghanol y 2000au. Mae ffigyrau allweddol yn y sector cyfiawnder teuluol ac yn y sector gofal cymdeithasol i blant wedi bod yn lleisio pryder bod y system ofal o dan bwysau. Maent yn nodi:

- y nifer cynyddol o deuluoedd sy'n wynebu straen tlodai;
- yr angen i helpu pobl ar gam cynnar o anawsterau teuluol er mwyn atal problemau rhag gwaethygu a chefnogi plant a'r rhai sy'n gofalu amdanynt.

Cyhoeddwyd yr adroddiad *Born into care Wales* rym mis Hydref 2019, a thynnodd sylw at lawer o'r heriau rydym wedi bod yn ceisio ymateb iddynt drwy'r rhaglen Gwella Canlyniadau i Blant, gan gynnwys yr amrywiaeth mewn niferoedd ac ym mhatrymau achosion rhwng ardaloedd awdurdodau lleol a byrddau cyfiawnder teuluol lleol. Canfu'r canlynol:

- Rhwng 2011 a 2018, roedd babanod yn cyfrif am 30% o'r holl boblogaeth o blant a oedd yn rhan o weithrediadau gofal a.31 yng Nghymru.
- Rhwng 2016 a 2018, roedd 49% o fabanod newydd-anedig yn "fabanod canlyniadol"; hynny yw, roedd eu mamau eisoes wedi ymddangos mewn gweithrediadau gofal ynglŷn â brawd neu chwaer hŷn.
- Ers 2012, bu gostyngiad yng nghyfran y babanod newydd-anedig a roddwyd i'w mabwysiadu.
- Yn 2018, roedd 64% o fabanod newydd-anedig yn destun gorchmynion gofal ar ddiwedd y gweithrediadau.
- Dros amser, mae'r llysoedd teulu yn gwneud llawer llai o ddefnydd o'r ystod o orchmynion sydd ar gael o dan Ddeddf Plant 1989, ar gyfer babanod newydd-anedig a babanod eraill.

2 The Care Crisis Review: *Factors contributing to national increases in the numbers of looked after children and applications for care orders*: www.frg.org.uk/images/Care_Crisis/Care-Crisis-Review-Factors-report-FINAL.pdf

Cyhoeddodd **Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru** ei *Dadansoddiad o'r Ffactorau sy'n Cyfrannu at y Cyfraddau Uchel o Ofal yng Nghymru* ym mis Mawrth 2019, sy'n ceisio esbonio pam y mae cyfraddau plant sy'n derbyn gofal yn uchel yng Nghymru³ ac effaith ffactorau megis:

- amddifadedd;
- effeithiau'r 'triawd sbarduno' (cam-drin domestig, rhieni yn camddefnyddio sylweddau a salwch meddwl rhieni) ar allu ac adnoddau rhianta;
- gwahaniaethau mewn polisiâu ac ymarfer rhwng awdurdodau lleol, gan gynnwys y ffordd y maent yn darparu gofal a chymorth;
- penderfyniadau a wnaed mewn llysoedd teulu.

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru hefyd yn gwneud ymchwil i edrych ar y rhesymau pam mae cyfraddau'r plant sy'n derbyn gofal yn amrywio ymysg awdurdodau lleol, gan ymchwilio i werthoedd a barn gweithwyr cymdeithasol, a sut y gwneir penderfyniadau, sef ffactorau sy'n effeithio ar yr amrywiadau hynny. Anfonwyd arolwg at bob gweithiwr cymdeithasol, rheolwr/dirprwy reolwr timau, uwch-reolwr, pennaeth gwasanaethau, a chyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Bydd casgliadau'r arolwg a'r ymchwil yn cael eu cyhoeddi maes o law.

COVID-19 – Mae pandemig y Coronafeirws wedi achosi heriau enfawr i deuluoedd sy'n agored i niwed ac wedi rhoi cryn bwysau ar wasanaethau plant, y llysoedd teulu a'n trydydd sector. Dengys ymchwil fod anghydraddoldeb wedi gwaethygu a bod sefyllfaoedd a oedd eisoes yn anodd i deuluoedd a phlant sy'n agored i niwed wedi dwysáu o ganlyniad i'r pandemig. Mae'n debygol y bydd effaith COVID-19 yn hirhoedlog ac yn gwaethygu'r anawsterau a'r heriau yr oedd llawer o blant yn eu hwynebu cyn y pandemig.

Bu effaith y pandemig ar iechyd meddwl yn fater allweddol ers dechrau'r pandemig. Tynnodd y Cenhedloedd Unedig sylw at bryder penodol ynghylch "frontline healthcare workers, older people, adolescents and young people, those with pre-existing mental health conditions and those caught up in conflict and crisis" (2020). Mae swyddogion yn parhau i fonitro arolygon mewn perthynas ag effaith y pandemig ar iechyd meddwl a llesiant. Mae'r canfyddiadau mwyaf diweddar yn awgrymu bod pobl ifanc yn parhau i nodi bod eu hiechyd meddwl a'u llesiant yn waeth nag yr oedd cyn y cyfyngiadau symud, gyda lefel uwch o orbryder drwy gydol y pandemig.

Ers dyddiau cynnar y pandemig, mae Llywodraeth Cymru wedi casglu data wythnosol gan awdurdodau lleol mewn perthynas â gofal a chymorth i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal a'r effaith ar y rhai sy'n gadael gofal. O'r data hyn, cawsom wybod am bwysau gwahanol yn y system, a gwnaethom geisio sicrwydd yn ôl yr angen gan bartneriaid yn y sector sydd â'r dyletswyddau statudol dros y plant hyn. Hefyd, arweiniodd Comisiynydd Plant Cymru ddau arolwg 'Coronafeirws a Fi' sydd wedi bod yn ffynonellau defnyddiol o wybodaeth ynglŷn â sut mae plant a phobl ifanc yn gyffredinol yn teimlo, ac mae gwaith gan CASCADE, NSPCC, Voices from Care ac eraill wedi bod yr un mor ddefnyddiol a dadlennol. Bydd ymateb i COVID-19 a lliniaru effaith y pandemig yn flaenoriaeth allweddol yn ystod tymor y Senedd newydd.

³ Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru *Dadansoddiad o'r Ffactorau sy'n Cyfrannu at y Cyfraddau Uchel o Ofal yng Nghymru*:

www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2019/05/CYM-190725-Analysis-of-Factors-Contributing-to-High-Rates-of-Care-REVISED.pdf

5. Cyflawni

Ffrwd Waith 1: Lleihau'n Ddiogel Nifer y Plant sydd Angen Gofal

Mae mynd i'r afael â'r cynnydd parhaus yn nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru wedi bod yn flaenoriaeth allweddol drwy gydol tymor y Llywodraeth hon. Dros y cyfnod hwn, rydym wedi gweld bod y pwysau ar wasanaethau plant a'r system llysoedd teulu wedi parhau i gynyddu, gyda llwythi gwaith yn parhau'n uchel ac adnoddau'n mynd yn fwyfwy cyfyngedig. Mae ein gwaith a'n hymgysylltu agos gyda Grŵp Cyngori'r Gweinidog a rhanddeiliaid wedi amlygu'r angen am waith partneriaeth cryfach wrth ddarparu gwasanaethau sy'n helpu i gadw teuluoedd gyda'i gilydd a lleddfu argyfwng er mwyn atal plant rhag dod i gysylltiad â gwasanaethau statudol.

Bu ymgysylltu o'r fath yn gymorth i lywio'r buddsoddiadau canlynol:

Gwasanaethau ar Ffiniau Gofal – Ers 2017-18, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £5m o gyllid rheolaidd i awdurdodau lleol sefydlu neu wella gwasanaethau ar ffiniau gofal sy'n bodoli eisoes, er mwyn helpu i leihau'r niferoedd cynyddol o blant sy'n dod yn rhan o'r system ofal. Mae pob un o'r 22 o awdurdodau lleol bellach wedi rhoi gwasanaethau ar waith, gan helpu dros 3,600 o blant i aros yn yr uned deuluol yn 2017–18 yn unig.

Adlewyrchu – Yn dilyn cyllid rheolaidd ychwanegol a gyhoeddwyd yn 2017–18, darparwyd £850k i helpu i gyflwyno Adlewyrchu ym mhob un o'r saith rhanbarth yng Nghymru. Datblygwyd prosiect Adlewyrchu i ymgysylltu â menywod sydd wedi cael profiad o weld plentyn yn cael ei symud yn orfodol i mewn i'r system ofal a'u cefnogi, er mwyn

helpu i atal rhagor o achosion yn y dyfodol. Nod Adlewyrchu yw torri'r cylch sy'n golygu bod plant yn mynd i mewn i'r system ofal, drwy roi cyfle i fenywod feithrin sgiliau ac ymatebion newydd a all helpu i greu dyfodol mwy cadarnhaol. Caiff rhieni eu hannog i ddeall eu gorffennol, gweithio gyda'u presennol a chyflawni eu nodau ar gyfer y dyfodol. Yn ystod chwe mis cyntaf 2020-21, gweithiodd Adlewyrchu gyda 243 o rieni yr oedd eu plant wedi cael eu symud i mewn i'r system ofal.

Y Gronfa Gofal Integredig – Ers 2019–20, mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £15m bob blwyddyn i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol drwy'r Gronfa Gofal Integredig. Mae Grŵp Cyngori'r Gweinidog wedi chwarae rhan allweddol yn y broses o gynghori ar sut y gellir targedu arian newydd at y meysydd sydd â'r flaenoriaeth uchaf. Mae'r rhain yn cynnwys prosiectau a sefydlwyd i helpu plant ar ffiniau gofal a'u hatal rhag dod yn blant sy'n derbyn gofal, yn ogystal â phrosiectau i roi cymorth i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal a/neu blant sydd wedi'u mabwysiadu. Mae tua 40 o brosiectau sy'n ymdrin â meysydd megis:

- Gwaith ailuno ac ailwladoli a symud plant yn agosach i'w cartref
- Cymorth i deuluoedd er mwyn atal teuluoedd rhag chwalu ac atal plant rhag dod yn rhan o'r system ofal
- Cynadleddau grŵp teulu er mwyn atal plant rhag cael eu symud i mewn i'r system ofal
- Cymorth therapiwtig i helpu plant sydd ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol
- Cymorth i atal teulu/lleoliad rhag chwalu
- Hyfforddiant ac ymwybyddiaeth ar gyfer iechyd meddwl amenedigol

Yn dilyn newidiadau i'r canllawiau statudol mewn perthynas ag Adran 9 o'r Ddeddf⁴, mae'r diffiniad o blant ag anghenion cymhleth bellach yn cynnwys:

- plant ag anableddau a/neu salwch;
- plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal;
- plant y mae angen gofal a chymorth arnynt;
- plant sydd ar ffiniau gofal/mewn perygl o ddod yn blant sy'n derbyn gofal;
- Plant ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol.

Ymchwiliad Gwerthfawrogol

Er mwyn atgyfnerthu'r ymdrech i atal mwy o achosion, cytunodd aelodau o Grŵp Cyngori'r Gweinidog i roi o'u hamser i gymryd rhan mewn Ymchwiliad Gwerthfawrogol mewn chwe awdurdod lleol ledled Cymru yn 2018. Diben yr ymchwiliad oedd ceisio nodi dulliau effeithiol o roi cymorth i deuluoedd, a strategaethau i reoli risg sy'n helpu i leihau'n ddiogel nifer y plant y mae angen gofal arnynt⁵.

Mae canfyddiadau'r ymchwiliad wedi bod yn ddefnyddiol o ran penderfynu sut y bydd Llywodraeth Cymru yn darparu buddsoddiadau yn y dyfodol, i atgyfnerthu'r cymorth i deuluoedd sy'n agored i niwed y mae eu plant mewn perygl o ddod yn rhan o'r system ofal ac i ddarparu gwasanaethau therapiwtig ychwanegol⁶. Cafodd hyn ddylanwad penodol ar ffurf y buddsoddiad ychwanegol o £15 miliwn

drwy'r Gronfa Gofal Integredig i helpu i leihau'r angen am ofal a gwasanaethau therapiwtig dwysach, ac wrth helpu i gryfhau ymateb a gweithgareddau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRhau) mewn perthynas â gwasanaethau plant⁷.

Gostyngiadau Disgwyliedig o ran Plant sy'n Derbyn Gofal

Er mwyn rhoi ffocws penodol ar leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru, yn 2019 gofynnodd y Prif Weinidog am i ddull gweithredu wedi'i dargedu gael ei ddatblygu ar y cyd â'r awdurdodau lleol. Mae'r Prif Weinidog wedi datgan yn glir fod gormod o blant yn cael eu symud oddi wrth eu teuluoedd i mewn i'r system ofal, a bod angen unioni'r anghydbwysedd rhwng rhoi plant mewn gofal a rhoi cymorth i gadw teuluoedd gyda'i gilydd. Pennodd y Prif Weinidog y meysydd â blaenoriaeth a ganlyn o ran lleihau:

- Nifer y plant mewn gofal.
- Nifer y plant sy'n cael eu lleoli y tu allan i'r sir.
- Nifer y plant sy'n cael eu lleoli y tu allan i Gymru.
- Nifer y plant sy'n cael eu symud oddi wrth rieni sydd ag anabledd dysgu.

4 llyw.cymru/trefniadau-partneriaeth-ar-gyfer-darparu-gofal-chymorth-canllawiau

5 Grŵp Cyngori'r Gweinidog, Rhagfyr 2018: *Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd mewn Chwe Awdurdod Lleol*

6 Grŵp Cyngori'r Gweinidog *Lleihau'n ddiogel nifer y plant sydd angen gofal*: llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-08/llleihau-nifer-y-plant-sydd-angen-gofal.pdf a gov.wales/sites/default/files/publications/2019-08/reducing-the-number-of-children-in-need-of-care.pdf

7 Ministerial Advisory Group Reducing the number of children in need of care: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-08/llleihau-nifer-y-plant-sydd-angen-gofal.pdf> and gov.wales/sites/default/files/publications/2019-08/reducing-the-number-of-children-in-need-of-care.pdf

Gofynnwyd hefyd i awdurdodau lleol ddatgyfuno'r canlynol yn glir o gyfanswm nifer y plant mewn gofal:

- Nifer y plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches.
- Nifer y plant sy'n cael eu gosod gyda'u rhieni eu hunain neu unigolyn arall sydd â chyfrifoldeb rhiant.
- Nifer y plant sydd mewn lleoliadau maethu gyda pherthynas neu ffrind.

Gweithiodd swyddogion yn agos gyda'r holl awdurdodau lleol i ddatblygu cynlluniau gostyngiadau disgwylidig dros gyfnod o dair blynedd (2019–2021). Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cydweithredu â Llywodraeth Cymru ar yr agenda hon. Cynhaliwyd cyfarfodydd â phob awdurdod lleol, o dan gadeirydd annibynnol a chyda chymorth swyddogion y llywodraeth, er mwyn trafod sut mae'n rheoli ei wasanaeth, y ffordd y mae'n ymdrin â risg a sut mae'n goruchwyllo plant pan fyddant yn dod yn rhan o'r system ofal a phan fyddant yn gadael gofal. Gweithiodd swyddogion gydag awdurdodau lleol i ddatblygu templed adrodd lle y gallent nodi eu cynlluniau gostyngiadau disgwylidig eu hunain, wedi'u teilwra at eu poblogaethau a'u demograffeg. Yn dilyn y trafodaethau hyn, cyflwynodd 18 o'r 22 o awdurdodau lleol gynlluniau gostyngiadau disgwylidig, yn nodi'r gostyngiadau arfaethedig yr oeddent yn anelu at eu cyflawni yn unol ag ymrwymadau'r Prif Weinidog. Mae cynlluniau gostyngiadau disgwylidig ar waith am dair blynedd, gan gwmpasu'r cyfnod 2019–2022.

Mae awdurdodau lleol yn nodi gostyngiad cronol dros dair blynedd (2019–20 – 2021–22) fel a ganlyn:

- Gostyngiad o 9% yn nifer y plant yn y system ofal.
- Gostyngiad o 16% yn nifer y plant sy'n cael eu lleoli y tu allan i'r sir.
- Gostyngiad o 20% yn nifer y plant sy'n cael eu lleoli y tu allan i Gymru.
- Dim ond nifer bach o'r awdurdodau a gynigiodd leihad yn nifer y plant a oedd yn cael eu symud oddi wrth rieni ag anabledd dysgu. Bu'r flaenoriaeth hon yn heriol i'r awdurdodau lleol gan eu bod yn casglu'r wybodaeth mewn ffordd wahanol i'w gilydd, sydd wedi'i gwneud yn anodd cofnodi niferoedd.

Ymchwil Anabledd Dysgu

Er mwyn helpu i nodi nifer y plant sy'n cael eu symud i mewn i'r system ofal oddi wrth rieni ag anabledd dysgu a'r rhesymau dros wneud hynny, comisiynwyd y Sefydliad Gofal Cyhoeddus i ymgymryd â gwaith ymchwil. Cyhoeddwyd y gwaith ymchwil hwn ym mis Rhagfyr 2019, a chanfu'r canlynol:

- Mae prinder gwybodaeth am nifer y plant i rieni ag anabledd dysgu sy'n rhan o Wasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant.
- Un o'r prif resymau dros hyn yw'r ffaith nad oes diffiniad cenedlaethol digon clir na chanllawiau ar gyfer Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant.
- Anaml iawn mai anabledd dysgu yw'r unig reswm dros atgyfeirio rhieni at Wasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant a symud plant i mewn i'r system ofal.
- Er bod arferion da yma a thraw, mae cryn dipyn o le i wella o hyd.

Yn dilyn yr adroddiad, comisiynwyd Prifysgol De Cymru ym mis Chwefror 2021 i ddatblygu canllawiau cenedlaethol i alluogi gweithwyr cymdeithasol i nodi a chefnogi rhieni ag anabledd dysgu yn well. Bydd y canllawiau cenedlaethol hyn yn nodi'r cymorth a'r ymyriadau y dylid eu rhoi ar waith er mwyn helpu i leihau'r angen i symud plant oddi wrth rieni ag anabledd dysgu, a byddant yn nodi diffiniad clir i helpu i lywio'r broses o gasglu data a datblygu polisiau yn y maes hwn. Rhagwelir y caiff y canllawiau eu cyhoeddi erbyn mis Hydref/Tachwedd 2021.

Effaith COVID-19

Mae pandemig y Coronafeirws wedi creu heriau enfawr i deuluoedd sy'n agored i niwed ac wedi rhoi cryn bwysau ar wasanaethau plant, y llysoedd teulu a'n partneriaid yn y trydydd sector. Mae diogelu ein plant a'n pobl ifanc sydd fwyaf agored i niwed wedi parhau'n un o'n blaenoriaethau allweddol, ac mae awdurdodau lleol a phartneriaid wedi ymdopi â'r heriau yn gampus. Mae gweithwyr cymdeithasol, gofalwyr maeth, y trydydd sector ac eraill oll wedi gwneud yr ymdrech ychwanegol i ofalu am y rhai sy'n derbyn gofal a'u hamddiffyn.

Er gwaethaf y pwysau, mae awdurdodau lleol wedi llwyddo i sicrhau sefydlogrwydd o fewn eu gwasanaethau, gan arwain at lai o blant yn cael eu derbyn i'r system ofal, llai o achosion o symud lleoliad a mwy o sefydlogrwydd o ran lleoliadau. Mae achosion wedi'u cynllunio o adael gofal hefyd wedi lleihau yn ystod y pandemig wrth i blant aros mewn gofal am fwy o amser, sydd wedi effeithio ar y ffigurau poblogaeth uchel ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Fodd bynnag, yn sgil y cyfyngiadau symud gwelwyd effaith gadarnhaol ar gydlyniant teuluoedd, gwell trefniadau cyswllt ac ymgysylltu â phlant a theuluoedd, ac effaith llai o ymyriadau gan wasanaethau cymdeithasol â bywyd teuluol.

Er mwyn helpu i liniaru effaith COVID-19 a rhoi cymorth parhaus i awdurdodau lleol gymryd camau ataliol, rydym wedi buddsoddi bron £8.5m o arian cronfa wrth gefn COVID-19. Mae'r swm hwn yn cynnwys:


- £2.49m i leihau ôl-groniadau o achosion llys a helpu i ddirymu trefniadau gofal.
- £2.2m i awdurdodau lleol ddatblygu cynadleddau grŵp teulu.
- £1m o gronfa galedi COVID-19 i'r rhai sy'n gadael gofal.
- £50k ar gyfer hyfforddiant i ofalwyr maeth ynglŷn â phlant ag anghenion cymhleth.
- £320k i lansio'r brand cenedlaethol.
- £1.6m i helpu i ddargyfeirio achosion oddi wrth y Gofrestr Amddiffyn Plant.

Eitem Etifeddol 1 Lleihau nifer y plant mewn gofal

Mae gan Gymru rai o'r cyfraddau uchaf o blant sy'n derbyn gofal yn y DU ac mae cryn amrywiad rhwng cyfraddau awdurdodau lleol unigol. Yn ystod tymor y Senedd hon, mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi parhau i gynyddu, o 5,661 yn 2016 i 7,172 yn 2020 – cynnydd o 1,511 o blant neu 26.7%. Nid yw'r cynnydd hwn yn nifer y plant sy'n derbyn gofal yn gynaliadwy ac mae'n rhoi pwysau

cynyddol ar awdurdodau lleol a'r llysoedd teulu. Fodd bynnag, er gwaetha'r fath bwysau, mae awdurdodau lleol a'r system llysoedd teulu yn darparu gwasanaethau effeithiol o ansawdd uchel sy'n diogelu plant sy'n agored i niwed ac sy'n cefnogi teuluoedd, fel y dangosodd arolwg Bright Spots yn 2018.

Nifer o blant sy'n derbyn gofal ar Fawrth 31*



Ffynhonnell: SSDA903 – Looked After Children Census

* Ac eithrio plant sy'n derbyn gofal mewn lleoliadau tymor byr yn unig

Mae'r cynnydd hwn wedi digwydd er gwaethaf ffocws parhaus Gweinidogion Cymru a'r gweithgarwch a nodwyd yn y rhaglen Gwella Canlyniadau i Blant, a gefnogwyd gan Grŵp Cyngori'r Gweinidog. Fel y dangosir uchod, bu cryn weithgarwch i gefnogi a datblygu gwasanaethau atal ac ymyrryd yn gynnar a buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru, e.e. Ar Ffiniau Gofal, Adlewyrchu, y Gronfa Integredig Gofal.

Cynlluniau Gostyngiadau Disgwyliedig

2021–22 fydd blwyddyn olaf ein taith gostyngiadau disgwyliedig dros dair blynedd a bydd angen parhau i fonitro. Mae'r niferoedd cynyddol o blant sy'n cael eu symud i mewn i'r system ofal wedi bod yn broblem ystyfnig a chynyddol ers sawl blwyddyn, ac roedd ymyriad y Prif Weinidog i gyflwyno **cynlluniau gostyngiadau disgwyliedig** yn ymateb uniongyrchol i'r broblem hon. Nod cynlluniau gostyngiadau disgwyliedig yw cydbwysu'r system o'r newydd a helpu teuluoedd i ofalu am eu plant eu hunain, gan gynnwys ymgymryd â gweithgarwch ailuno ychwanegol fel y gall plant ddychwelyd i'w cartref unwaith y bydd problemau teuluol wedi cael eu datrys.

Cymysg fu'r canlyniadau. Ym Mlwyddyn 1 (2019–20), cynyddodd nifer y plant sy'n derbyn gofal 4%. Fodd bynnag, o gymharu â'r cyd-destun o gynnydd o 7% ym mhob un o'r tair blwyddyn flaenorol, roedd cyfradd y cynnydd wedi gostwng. Hyd yma ym Mlwyddyn 2 (hyd at chwarter 3 yn 2020–21), mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi cynyddu 2.2% arall, sy'n golygu bod cyfradd y cynnydd wedi arafu eto, a hynny yng nghyd-destun COVID-19 a'r her y mae

wedi'i hachosi. Wrth lunio eu cynlluniau, nododd awdurdodau lleol y byddai gostyngiadau yn araf yn y flwyddyn gyntaf ac yn cyflymu yn yr ail a'r drydedd flwyddyn. Er bod cyfradd y cynnydd yn arafu mewn gwirionedd, nid yw cynlluniau gostyngiadau disgwyliedig awdurdodau lleol wedi arwain at leihad yn nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru eto.

Wrth i'r ystadegau swyddogol ddangos gostyngiad o 7% yn nifer y plant sy'n dod yn rhan o'r system ofal yn 2019–20. Dyma'r gostyngiad mwyaf yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac mae'n cyd-fynd â chyflwyno'r gwaith ar ostyngiadau disgwyliedig. Cafwyd gostyngiadau blaenorol hefyd yn 2017–18 (3%) a 2018–19 (2%). Fodd bynnag, mae nifer y plant sy'n gadael gofal hefyd wedi lleihau (1% yn 2019–20), sy'n effeithio ar y cyfanswm. Mae nifer y plant sy'n gadael gofal wedi lleihau bob blwyddyn ers 2014-15, a'r patrwm hwn sy'n helpu i gyfrannu at ein ffigurau cynyddol o ran plant sy'n derbyn gofal. Gwyddom fod COVID-19 yn dwysáu'r patrwm hwn, gyda llai o bobl ifanc yn gadael gofal er mwyn helpu i sicrhau sefydlogrwydd yn ystod y pandemig.

Ers cyflwyno'r cynlluniau gostyngiadau (Mawrth 2019), bu gostyngiad o 1.4% yn nifer y plant sy'n cael eu lleoli oddi wrth eu teuluoedd, sy'n unol ag ymrwymiad y Prif Weinidog.

Ar y llaw arall, mae lleoliadau y tu allan i'r sir a'r tu allan i Gymru wedi parhau i gynyddu, 5.2% a 7% yn y drefn honno yn 2019–20, a 5.6% a 5.4% erbyn chwarter 3 yn 2020–21. Er bod y ffigurau hyn yn siomedig, mae'r mwyafrif o'r lleoliadau hyn yn rhai gyda theulu/ffrindiau neu'n lleoliadau arbenigol yn achos anghenion cymhleth. Mae awdurdodau lleol yn nodi bod prinder lleoliadau,

diffyg darpariaeth breswyl fewnol ac anghenion cynyddol gymhleth yn ffactorau sy'n cyfrif am y cynnydd yn nifer y lleoliadau y tu allan i'r sir a'r tu allan i Gymru. Mae hyn yn pwysleisio'r angen am gwblhau'r gweithgarwch sy'n mynd rhagddo i sicrhau bod digon o leoliadau yng Nghymru; yn enwedig y Fframwaith Maethu Cenedlaethol, gofal preswyl a llety i blant ag anghenion cymhleth.

Nid oes llawer o ddata i gefnogi'r mesur ynglŷn â nifer y plant sy'n cael eu symud oddi wrth rieni ag anabledd dysgu. Dim ond wyth o'r 22 o awdurdodau lleol sy'n cyflwyno adroddiad ar y mesur hwn oherwydd y pryderon sydd ganddynt o hyd, gan gynnwys os nad oes fawr ddim plant, os o gwbl, yn y garfan a diffyg eglurder ynglŷn â'r diffiniad o 'rhiant ag anabledd dysgu'. Comisiynwyd Prifysgol De Cymru ym mis Chwefror 2021 i nodi diffiniad clir er mwyn helpu i lywio proses gyson o gasglu data a datblygu polisiau yn y maes hwn a datblygu canllawiau cenedlaethol i alluogi gweithwyr cymdeithasol i nodi a chefnogi rhieni ag anabledd dysgu yn well. Caiff y gwaith hwn ei gyflawni erbyn mis Tachwedd 2021.

Mae Gweinidogion Cymru yn parhau o'r farn bod gormod o blant yng Nghymru yn cael eu symud o'u teuluoedd a'u rhoi yn y system gofal. Bydd yr agenda hon yn parhau'n ymrwymiad polisi allweddol ar gyfer y Llywodraeth newydd. Mae angen gwneud rhagor o waith ar frys i roi sylw i'r diffyg cydbwysedd rhwng rhoi plant mewn gofal a darparu cymorth i gadw teuluoedd gyda'i gilydd

Gweithgarwch sy'n mynd rhagddo i helpu i sicrhau gostyngiadau

Er mwyn helpu awdurdodau lleol i sicrhau gostyngiadau, sefydlwyd Bwrdd Trosolwg i arwain nifer o ffrydiau gwaith, gan gynnwys:

- Datblygu rhaglen Dysgu a Gwella a'i rhoi ar waith, gan gynnwys hwyluso Fframwaith Dysgu gan Gymheiriaid ar gyfer Penaethiaid Gwasanaethau Plant i Gymru Gyfan, rhwydwaith dysgu gan gymheiriaid a chyfres o ddsbarthiadau meistr i rannu arferion, gan ddysgu o bob rhan o'r system.
- Cyflwyno cyfres o ddsbarthiadau meistr ar y cyd â CLILC a Gofal Cymdeithasol Cymru i gefnogi llesiant y gweithlu, dulliau sy'n seiliedig ar gryfderau a sesiynau ar fodolau ymarfer penodol megis teuluoedd gwydn ac ailuno. Hyd yma, mae ddsbarthiadau meistr wedi cael eu cynnal ar Gynadleddau Grŵp Teulu, Eiriolaeth i Rien i ac atal babanod newydd-anedig rhag dod yn rhan o'r system ofal.
- Sesiynau adolygu Timau Trawsnewid a Chefnogi gydag awdurdodau lleol a phartneriaid i nodi'r canlynol:
 - gwersi a ddysgwyd a gwelliannau i wasanaethau i'w rhannu ledled Cymru;
 - cymorth pellach drwy'r system gyfan sydd ei angen i hyrwyddo gwaith adfer teuluoedd a helpu plant i aros gyda'u teuluoedd.

Cyfiawnder Teuluol

Mae Llywodraeth y DU wrthi'n arwain rhaglen o ddiwygiadau mewn cyfraith gyhoeddus a chyfraith breifat, fel y'i hamlinellwyd gan y Gweithgor Cyfraith Gyhoeddus a'r Gweithgor Cyfraith Breifat. Y brif her yw lleihau nifer yr achosion sy'n dod gerbron y llys drwy roi gwasanaethau cymorth ac arferion diogel ac amgen ar waith sy'n dargyfeirio teuluoedd oddi wrth y llysoedd.

O ran cyfraith breifat, mae Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Lleol Gogledd Cymru wedi cael ei ddewis fel un o ddau safle (Dorset yn Lloegr yw'r llall) i sefydlu a threialu rhai diwygiadau i gyfraith breifat. Mae'r rhain yn cynnwys argymhellion y Panel Niwed, treialu Llys Cam-drin Domestig Integredig a phrofi dull 'ymchwiliol' i ddatrys achosion cyfraith breifat.

Mae gwaith ym maes cyfraith gyhoeddus wedi canolbwyntio ar b'un a oes modd dargyfeirio pobl ifanc oddi wrth weithrediadau cyfraith gyhoeddus, ac amseroldeb penderfyniadau unwaith y byddant yn destun gweithrediadau. Mae pecyn hyfforddiant yn cael ei ddatblygu i gefnogi'r broses o gyflwyno nifer o Ganllawiau Arferion Gorau (e.e. gweithdrefnau ymgeisio a rheoli achosion; defnyddio Gorchmynion Goruchwyllo ac Adran 76) sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn.

Gan weithio drwy Rwydwaith Cyfiawnder Teuluol Cymru a Byrddau Cyfiawnder Teuluol Lleol, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda phartneriaid i helpu i gyflwyno'r ddau ddarn o waith yn ystod y gwanwyn. Rhagwelir y bydd y rhain yn cael effaith sylweddol ar ddiwylliant ac arferion gwaith y system cyfiawnder teuluol.

At hynny, bydd Cynllun Peilot Cyffuriau ac Alcohol Teuluol yn dechrau cyn bo hir yng Nghymru, a fydd yn cael ei gyflwyno gan Fwrdd Cyfiawnder Teuluol Lleol De-ddwyrain Cymru. Mae'r gwaith ar y cam cynllunio ar hyn o bryd a disgwylir i'r gweithgarwch ddechrau yn yr hydref. Bydd hyn yn cyflwyno dull o ymdrin â gweithrediadau gofal yn y llys sy'n seiliedig ar ddatrys problemau y gall rhieni ddewis ei ddilyn yn hytrach na mynd drwy weithrediadau gofal safonol.

Ymchwil a Diwygio yn y Dyfodol

Mae'n amlygu bod pwysau ar bob rhan o'r system plant sy'n derbyn gofal. Mae gwaith ymchwil yn parhau i godi cwestiynau ynglŷn ag effeithiolrwydd y cymorth sydd ar gael i rieni plant sy'n derbyn gofal a chymorth, mewn teuluoedd lle mae cam-drin domestig, camddefnyddio sylweddau neu iechyd meddwl gwael yn gyffredin. Mae cyfran helaeth o wariant y wladwriaeth yn cael ei gwario ar 'ymyriadau hwyr' i blant a theuluoedd ac un o'r eitemau unigol mwyaf yw cost plant sy'n mynd i mewn i'r system ofal.

Mae amddifadedd a chyni cyllidol yn chwarae rhan sylweddol yn y cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal, ond nid ydynt yn cyfrif am y cyfan. Dadansoddodd adroddiad gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn 2019, *Dadansoddiad o'r Ffactorau sy'n Cyfrannu at y Cyfraddau Uchel o Ofal yng Nghymru*, y ffactorau a oedd yn achosi amrywiad yng nghyfraddau plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru. Dangosodd ei dadansoddiad fod amddifadedd yn cyfrif am 53% o'r amrywiad, bod polisiau ac ymarfer yn cyfrif am 19% a bod gallu'r rhiant (gan gynnwys trais domestig/camddefnyddio sylweddau/problemau iechyd meddwl) yn cyfrif am 24%. Fel gwaith

dilynol ar yr ymchwil, cynhaliodd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru arolwg o ymarferwyr ac arweinwyr gwasanaethau cymdeithasol plant yn ddiweddar, a ganfu mai'r ffactor mwyaf sy'n dylanwadu ar gyfraddau achosion, yn ôl gweithwyr cymdeithasol ac arweinwyr, yw'r llysoedd. Ymhlith y ffactorau allweddol eraill sy'n chwarae rhan mae'r modelau ymarfer gwahanol a fabwysiadwyd, arferion gwahanol wrth ddarparu gwasanaethau a chanfyddiadau o risg ymhlith ymarferwyr.

Mae gwasanaethau plant awdurdodau lleol yng Nghymru yn dilyn nifer o fframweithiau ymarfer neu fodelau ymarfer gwahanol. Mae'r rhain yn amrywio o becynnau, megis Arwyddion Diogelwch, sy'n cael eu prynu a'u mabwysiadu, i'r rhai a ddatblygir gan yr awdurdod lleol ei hun. Mewn sgysiau ag awdurdodau lleol yn 2019 ynglŷn â gostyngiadau disgwylidig, nodwyd rôl allweddol a phwysigrwydd Fframwaith Ymarfer neu Fodel Ymarfer sefydledig, sy'n cael ei ddeall a'i gymhwysu'n gyson. Er mwyn ystyried y maes hwn ymhellach, mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi comisiynu'r Sefydliad Gofal Cyhoeddus i gwblhau ymarfer cwmpasu ar gyfer model o gymorth i blant a theuluoedd sy'n agored i niwed yn y dyfodol.

Gan edrych ar ddiwygio gofal cymdeithasol yn fwy cyffredinol, mae Papur Gwyn **Dyfodol Gofal Cymdeithasol** wedi cael ei gyhoeddi ac mae'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad yn llywio syniadau a thrafodaethau yn y dyfodol ynglŷn â datblygu cydweledigaeth ar gyfer gwasanaethau plant a'r ffordd y cânt eu darparu yn y dyfodol; gan gynnwys gofal nid er elw, comisiynu, atgyfnerthu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, gofal seiliedig ar werth ac ati.

Sefydlwyd uwch-grŵp arwain newydd gan yr Ysgrifennydd Parhaol er mwyn helpu i gyflawni uchelgais a gweledigaeth newydd ar gyfer plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal a meithrin cydberchenogaeth ymhlith yr holl bortffolios polisi. Y bwriad yw y bydd hyn yn sbarduno gwell trefniadau gweithio amlddisgyblaethol a thrawsadrannol ymhlith y rhai sy'n darparu gwasanaethau ar eu cyfer, yn seiliedig ar gymorth cyffredinol ac wedi'i deilwra, prosesau gwneud penderfyniadau mwy mentrus, ymarfer proffesiynol cadarn ac arweinyddiaeth leol glir.

Ffrwd Waith 2: Darparu a chomisiynu ystod hyblyg, fforddiadwy a digonol o leoliadau o ansawdd uchel

Mae'r rhaglen Gwella Canlyniadau i Blant wedi bod yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o fentrau a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru, llywodraeth leol a'r trydydd sector er mwyn gwella'r dewis o leoliadau, eu hansawdd a'u sefydlogrwydd. Mae lleoliadau sefydlog yn hollbwysig er mwyn rhoi ymdeimlad o berthyn a diogelwch i blant mewn gofal. O ran plant sydd eisoes mewn gofal, mae hyn yn golygu gwneud pob ymdrech i ailuno teuluoedd lle y bo'n briodol, er budd y plentyn a phan fydd yn ddiogel gwneud hynny. Mae'r pwysau cynyddol ar wasanaethau plant wedi golygu ei bod hi'n mynd yn fwyfwy anodd paru plant â lleoliadau priodol ar draws yr holl opsiynau sydd ar gael, megis maethu, mabwysiadu a gofal preswyl.

Maethu

Mae sicrhau bod lleoliadau o ansawdd da ar gael yn amserol ac yn agos i'r cartref i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal wedi bod yn ffocws allweddol i'r rhaglen Gwella Canlyniadau i Blant. Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i gymryd camau i sicrhau bod ganddynt ddigon o lety i ddiwallu anghenion y plant yn eu gofal ('y ddyletswydd digonolrwydd'). Fel darparwr mawr ac unig gomisiynydd gwasanaethau maethu yng Nghymru, mae llywodraeth leol wedi chwarae rôl allweddol i hyrwyddo'r agenda er newid, ac mae lleoliadau wedi bod yn un o themâu allweddol y rhaglen Gwella Canlyniadau i Blant. Mae gan bob awdurdod lleol yng Nghymru wasanaeth maethu mewnol ac mae rhai yn darparu llety preswyl mewnol. Mae awdurdodau lleol hefyd yn comisiynu gofal maeth

a gofal preswyl gan ddarparwyr preifat a sefydliadau gwirfoddol. Mae Consortiwm Comisiynu Plant Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu strategaethau comisiynu lleoliadau lleol a rhanbarthol, ond mae angen gwneud rhagor o waith o hyd, yn enwedig o ran comisiynu gwasanaethau arbenigol yn rhanbarthol.

Cydnabu awdurdodau lleol fod angen mynd i'r afael â phroblemau a oedd yn tanseilio'r gwaith o gyflawni'n gyson eu cyfrifoldeb am ddarparu amrywiaeth a nifer digonol o leoliadau maeth o ansawdd da i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Ystyriwyd y byddai sefyllfa a nodweddir gan 'ymgais i reoli dirywiad', yn debygol o barhau pe baent yn parhau â'r ffyrdd traddodiadol o weithio, yn enwedig o ystyried cyd-destun gweithredol ac ariannol gwasanaethau plant sy'n derbyn gofal yn eu cyfanrwydd.

Datblygwyd y Fframwaith Maethu Cenedlaethol gan awdurdodau lleol, llywodraeth ganolog a'r trydydd sector fel rhaglen newid pum mlynedd i fynd i'r afael â'r materion hyn. Mae cyllid wedi cael ei ddarparu'n flynyddol, gan Lywodraeth Cymru i ddechrau ac yna gan CLILC. Yn 2020–2021, rhoddodd Llywodraeth Cymru grant er mwyn helpu i roi rhai o'r asedau yr oedd eu hangen ar gyfer brandio a marchnata ar waith.

Mae'r seilwaith wedi cael ei roi ar waith i sicrhau bod gwasanaethau gofal maeth yng Nghymru yn cael eu darparu mewn ffordd fwy cyson.

Mae'r Canllaw Arferion Da ar asesu a chefnogi Gofalwyr Maeth sy'n Berthnasau wedi cael ei ddatblygu a'i gyhoeddi a chaiff ei ddefnyddio gan awdurdodau lleol i gefnogi eu hymarfer ar gyfer gofalwyr maeth sy'n 'perthyn' i'r plentyn y maent yn ei faethu.

Eitem Etifeddol 2 Fframwaith Maethu Cenedlaethol

Mae cyfran sylweddol o adnoddau ac amser lleol yn cael eu defnyddio bob dydd i chwilio am leoliadau nad ydynt yn bodoli neu nad ydynt yn hygyrch. Er gwaethaf pob ymdrech, nid yw'r trefniadau comisiynu presennol wedi atal niferoedd cynyddol o blant rhag cael eu lleoli y tu allan i'w hardal leol, gan roi pwysau ar adnoddau addysg ac iechyd awdurdodau cyfagos a chynyddu costau i awdurdodau sy'n eu lleoli.

Mae recriwtio gofalwyr maeth yn allweddol i lwyddiant a datblygiad gwasanaethau maethu awdurdodau lleol. Er mwyn cyflawni'r nod hwn, nodwyd mai un o'r gofynion allweddol fyddai datblygu "brand Cymru gyfan ar gyfer gwasanaethau maethu awdurdodau lleol", sef brand cenedlaethol, cyson ar gyfer gwasanaethau maethu awdurdodau lleol sy'n adlewyrchu cryfderau a phersonoliaethau'r 22 o awdurdodau lleol. Mae hyn yn gyfle i gydbwysu'r gwasanaethau a ddarperir o'r newydd, ateb y galw, a gwella ansawdd y dewis o leoliadau i blant.

Bydd y brand cenedlaethol yn:

- Gwella hygyrchedd lleoliadau lleol, sicrhau bod nifer digonol ohonynt a chynyddu'r dewis sydd ar gael, a rhoi'r rheolaeth yn ôl i'r awdurdodau lleol wneud y defnydd gorau o'r lleoliadau hynny pan fydd eu hangen arnynt, gan leihau'r ddibyniaeth ar drydydd partion a mynd i'r afael â'r prinder lleoliadau.
- Galluogi gwasanaethau i ddiwallu anghenion plant a theuluoedd sy'n datblygu. Caiff ymgyrchoedd recriwtio eu targedu i ddiwallu anghenion gwasanaethau.

- Hwyluso'r broses o recriwtio cronfa newydd o ofalwyr maeth. Gall prosesau recriwtio a hyfforddi ganolbwyntio ar feithrin sgiliau mewn gwaith ailuno, anghenion cymhleth a maethu rhiant a phlentyn.
- Galluogi plant y mae angen gofalwr maeth arnynt i gael y gofalwr maeth cywir, ar yr adeg gywir ac yn y lleoliad cywir.

1. Recriwtio a Marchnata

Mae Brand i Gymru gyfan ar gyfer maethu wedi cael ei ddylunio a'i gymeradwyo gan bob un o'r 22 o awdurdodau lleol, ac mae cynlluniau gweithredu cynhwysfawr wedi cael eu llunio i'w cyflwyno ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol.

Bydd angen cynnal dadansoddiad o anghenion recriwtio ar gyfer pob awdurdod lleol, a bydd hyn yn llywio'r strategaeth recriwtio genedlaethol a lleol.

Caiff Canllaw Arferion Gorau ar Recriwtio a Chadw staff ei baratoi er mwyn helpu gwasanaethau i ymgorffori safonau ymarfer gorau mewn perthynas ag ymarfer a phrosesau recriwtio.

Bydd y Canllaw Arferion Gorau yn sefydlu ac yn gweithredu arferion gorau ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru, a bydd yn mynd i'r afael â'r ansawdd amrywiol a welir ar hyn o bryd. Bydd hefyd yn cynnal safonau ymarfer recriwtio a fydd yn fodd i sicrhau cyfanrwydd brand yn genedlaethol ac ymhob awdurdod lleol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi £319k yn ystod 2020–21 i ‘sbarduno’ seilwaith yr ymgyrch. Rhagwelir y bydd yn cael ei lansio ym mis Mai/Mehefin 2021. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i fuddsoddi er budd y seilwaith sy’n gysylltiedig â’r brand cenedlaethol am ddwy flynedd arall.

2. Cyllid Gofal Maeth

Y nod yw cysoni’r holl daliadau a wneir i ofalwyr maeth awdurdodau lleol ledled Cymru fel rhan o’r pecyn cymorth ehangach. Cafwyd consensws ymhlith yr holl awdurdodau lleol y dylid gweithio tuag at gysoni. Mae’r gwaith o ddatblygu pecyn cymorth yn mynd rhagddo a bydd yn:

- i. Cynnwys Fframwaith Polisi Cenedlaethol ar gyfer taliadau i ofalwyr maeth
- ii. Cynnwys argymhelliad ar gyfer cyfraddau gwobrwyo cenedlaethol
- iii. Rhoi cyd-destun a chanllawiau cyfreithiol
- iv. Rhoi methodoleg ar gyfer cyfrifo costau a chanllawiau gweithredu
- v. Rhoi adnoddau i gefnogi’r defnydd o arferion newydd a’u hymgorffori

3. ‘Cynnig Craidd’ Awdurdodau Lleol i Ofalwyr Maeth

Bydd y cynnig craidd i ofalwyr maeth awdurdodau lleol yn cael ei wella a bydd y cynigion presennol yn cael eu hymestyn i sicrhau cysondeb yn rhanbarthol a, lle y bo modd, yn genedlaethol.

Mae ymarfer mapio cenedlaethol wedi cael ei gwblhau er mwyn deall yn glir pa wahaniaethau a ffactorau cyffredin sy’n bodoli ymhlith y 22 o awdurdodau lleol. Mae gwaith i ddatblygu Cynnig Craidd Cenedlaethol yn mynd rhagddo. Nod y cynnig craidd yw gwneud y defnydd gorau o’r adnoddau sydd ar gael o fewn darpariaeth awdurdodau lleol.

Mae gwaith i ddatblygu Cynigion Craidd Rhanbarthol Gwell hefyd yn mynd rhagddo. Ar lefel ranbarthol, y nod yw estyn y cynigion lleol presennol ym mhob awdurdod lleol yn y rhanbarth er mwyn sicrhau cysondeb llawn yn rhanbarthol.

Bydd hyn yn cynnig y buddiannau canlynol:

- i. Yr un mynediad at gymorth a gwobrwyon i deuluoedd sy’n maethu a phlant sy’n derbyn gofal.
- ii. Cymhelliad recriwtio i ddenu cronfa ehangach o ddarpar ofalwyr maeth a gwella opsiynau o ran lleoliadau.
- iii. Gwell llesiant i deuluoedd sy’n maethu a phlant sy’n derbyn gofal.
- iv. Mwy o sefydlogrwydd i blant sy’n derbyn gofal.
- v. Gwell cyfraddau cadw gofalwyr maeth a gwasanaeth mwy cynaliadwy.
- vi. Dysgu a datblygu ar gyfer gofal maeth yn parhau i fod ar gael.

Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig/Gofal gan Berthynas

Mae'r trefniadau ar gyfer cefnogi gofaluwr sy'n berthnasau wedi cael eu hatgyfnerthu drwy gydgyhyrchu canllaw ar ofal gan berthynas gyda chyllid gan Plant yng Nghymru. Cefnogodd Grŵp Cynghori'r Gweinidog y datblygiad hwn a'r broses ymgynghori ynghylch fframwaith cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau cymorth ar gyfer gwarcheidiaeth arbennig, gan gynnwys meini prawf cymhwyso cyffredin ar gyfer cymorth ariannol a mathau eraill o gymorth.

Ym mis Mawrth 2020, lansiodd Llywodraeth Cymru fframwaith cymorth ar gyfer Gwarcheidiaeth Arbennig, sy'n nodi 'cynnig' o wasanaethau cymorth ar gyfer gwarcheidiaeth arbennig i Gymru gyfan. Mae'n nodi'r gwasanaeth sylfaenol y dylai pob awdurdod lleol ei gynnig er mwyn cydymffurfio â'r fframwaith rheoleiddio. Bydd y fframwaith hwn yn adeiladu ar y gwaith sydd eisoes wedi cael ei wneud ym maes gwarcheidiaeth arbennig, a bydd yn sicrhau cymorth unffurf ledled Cymru.

Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gofal Preswyl Plant

Mae gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gofal Preswyl Plant, sef is-grŵp o Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Wella Canlyniadau i Blant, wedi canolbwyntio ar y blaenoriaethau canlynol:

- proffilio gofal preswyl plant yng Nghymru
- adolygu modelau gofal preswyl i blant a phobl ifanc a rhoi hyfforddiant i weithlu'r sector cyhoeddus a'r sector preifat ar fodolau gofal gwahanol a'r hyn sy'n gyffredin i arferion da er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol

- ystyried datblygu cynllun sy'n cyfateb i Pan Fydda i'n Barod mewn gofal preswyl, a fydd yn cynnwys safbwyntiau pobl ifanc ar adael gofal preswyl
- datblygu canllawiau ymarfer ar leoliadau y tu allan i'r ardal a thros y ffin i blant a phobl ifanc mewn gofal preswyl
- datblygu dangosfyrddau data amser real a modiwlau adrodd, drwy lwyfan Adnoddau Cymorth Comisiynu Plant, ar adnoddau preswyl, proffil gwasanaethau, lleoedd gwag, rhesymau pam nad yw lleoliadau ar gael a rhesymau dros fylchau o ran digonolrwydd
- comisiynu a chyflwyno hyfforddiant ar ofal a lywir gan drawma i weithwyr gofal preswyl
- comisiynu a chyhoeddi protocol mewn perthynas â dad-droseddoli plant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys y rhai mewn gofal preswyl, a gaiff ei gefnogi gan becyn cymorth hyfforddiant sydd wedi'i dargedu at weithredu'r protocol yn effeithiol ac ymgorffori gwell arferion atal a dargyfeirio oddi wrth y system cyfiawnder troseddol
- cwmpasu a datblygu trefniadau ar gyfer lleoliadau o dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol a lleoliadau remand mewn gofal preswyl
- dysgu gwersi o ran arferion da sy'n gysylltiedig â gwasanaethau gofal preswyl a chymorth yn ystod pandemig COVID-19
- cefnogi Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn eu gwaith i ddatblygu llety i blant ag anghenion cymhleth.

Rydym wedi cael sawl allbwn ymchwil a chynghor o'r gwaith a amlinellwyd, sydd wedi helpu i greu'r darlun o sector lle bu prinder gwybodaeth o'r blaen. Mae llais plant a phobl ifanc wedi bod yn amlwg drwy gydol y rhaglen waith hon, drwy ymgysylltu â Voices from Care Cymru a'r Rhaglen Comisiynwyr Ifanc. Mae darnau eraill o waith eto i'w cwblhau, oherwydd oedi o ganlyniad i bandemig COVID-19, a byddant yn parhau yn ystod tymor y Senedd nesaf. Ymhlith yr enghreifftiau o waith i fwrw ymlaen ag ef mae cwblhau a chyhoeddi'r canllawiau ymarfer ar ofal preswyl y tu allan i'r ardal a lleoliadau dros y ffin, a fydd yn digwydd yn unol ag adolygiad yr Adran Addysg o'i chanllawiau statudol ar Ddeddf Plant 1989; cyflwyno trefniadau peilot ar gyfer lleoliadau preswyl o dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol a lleoliadau preswyl remand, a'u gwerthuso; a chwblhau a chyhoeddi'r protocol ar gyfer dad-droseddoli.

Lleoliadau Diogel Lles/Hillside

Un elfen o'r gwaith ar ofal preswyl i blant oedd datblygu data mewn perthynas â lleoliadau diogel lles yn Hillside. Mae'r Uned Cydgysylltu Diogel Lles sy'n ymdrin â threfniadau ar gyfer lleoliadau diogel lles i awdurdodau lleol yng Nghymru, yn cyhoeddi adroddiad chwarterol ar y lleoliadau hynny ac achosion lle na fu modd trefnu lleoliadau o'r fath. Mae'r olaf yn bwydo i mewn i'r gwaith a fydd yn mynd rhagddo yn ystod tymor y Senedd nesaf i adolygu'r data sy'n cael eu casglu ar hyn o bryd, gyda'r nod o gael darlun manylach o'r gallu i gael gafael ar leoliadau diogel lles a'r defnydd a wneir ohonynt.

Yn unol â datblygu'r Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid a'r papur diweddar gan Gabinet y Senedd ynglŷn â darpariaeth dalfeydd ieuenctid yn y dyfodol, byddwn yn ystyried dyfodol darpariaeth ddiogel lles.

Eitem Etifeddol 3 Llety i blant ag anghenion cymhleth

Mae Comisiynydd Plant Cymru wedi cyflwyno dadl dda dros ddarpariaeth breswyl iechyd a gofal cymdeithasol integredig ranbarthol i blant ag anghenion emosiynol ac ymddygiadau ‘dwys’ cymhleth yn ei hadroddiad Dim Drws Anghywir. Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRhau) yn amcangyfrif bod nifer bach ond arwyddocaol o blant ledled Cymru y mae angen gofal a chymorth preswyl ac arbenigol arnynt er mwyn diwallu angen dwys. Diffinnir angen ‘dwys’ fel anghenion emosiynol ac ymddygiadol difrifol lle mae neu lle nad oes diagnosis wedi cael ei roi o bosibl sy’n gofyn am ymyriadau therapiwtig dwys.

Byddai'r math hwn o ddarpariaeth breswyl:

- yn lleihau'r defnydd o leoliadau costus y tu allan i'r ardal i'r eithaf ac yn dod â phlant yn agosach i'w cartref, neu'n eu cadw'n agosach i'w cartref, sef un o feysydd allweddol rhaglen waith Grŵp Cynghori'r Gweinidog
- yn helpu i osgoi sefyllfa lle mae'r angen yn dwysáu a allai arwain at leoliad diogel lles neu leoliad iechyd meddwl haen 4 fel claf mewnol
- yn gallu cael ei ddefnyddio fel darpariaeth ‘camu i lawr’ fel bod modd rhyddhau claf o leoliad diogel neu haen 4.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud:

- nodwyd mai'r BPRhau oedd y cyfrwng mwyaf priodol i ddatblygu darpariaethau
- gwnaeth y BPRhau waith i nodi anghenion ac ystyried y ffordd orau o'u diwallu
- er mwyn datblygu a phrofi modelau cyflawni newydd, nodwyd bod angen cyllideb arian ysgogi o £2m o gyllid refeniw ar gyfer 2021–22 o'r Gronfa Gofal Integredig
- cafodd proses Mynegi Diddordeb ar gyfer y swm o £2m ei datblygu a'i chyflwyno i'r BPRhau, a arweiniodd at bob un o'r saith rhanbarth yn cyflwyno cynigion.

Roedd y broses Mynegi Diddordeb yn glir y byddai angen i BPRhau gynnwys cynlluniau ar gyfer cynnal y ddarpariaeth ar ôl blwyddyn, gan gynnwys ymrwymiad i gadw'r gwasanaeth yn unol â'r cynnig gwreiddiol. Gan edrych i'r dyfodol, bydd penderfyniadau ynghylch dyrannu'r £2m yn cael eu gwneud a bydd y BPRhau yn cael eu hysbysu amdanynt, a bydd y darpariaethau'n cael eu gwerthuso er mwyn llywio gwersi i'w dysgu ar gyfer gwasanaethau a chymorth yn y dyfodol.

Mabwysiadu

Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru yn fenter gydweithredol arloesol, sy'n dwyn ynghyd holl wasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol yn un strwythur tair haen.

Yn rhanbarthol, mae awdurdodau lleol yn gweithio gyda'i gilydd o fewn pum menter gydweithredol ranbarthol i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau mabwysiadu. Mae gan bob menter gydweithredol ranbarthol gysylltiadau â'r asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol, iechyd ac addysg. Mae pob un ohonynt yn cyflawni swyddogaethau asiantaethau mabwysiadu ar gyfer plant, gan recriwtio ac asesu mabwysiadwyr, cynnig cwnsela i rieni biolegol a chyngor i oedolion sydd wedi'u mabwysiadu. Yn genedlaethol, mae'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau a thîm canolog bach sydd wedi'i leoli yng Nghyngor Dinas Caerdydd ar ran yr holl awdurdodau lleol, yn sbarduno gwelliant, cysondeb a chydgyssylltu.

Mae aelodau o Grŵp Cynghori'r Gweinidog wedi chwarae rôl bwysig yn y gwaith o ddatblygu adnoddau'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol i ddiwallu'r angen am leoliadau a rhoi model cenedlaethol o gymorth mabwysiadu ar waith. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi £2.3 miliwn o gyllid i awdurdodau lleol yn 2019–20 a 2020–21 i helpu i atgyfnerthu darpariaeth ym maes mabwysiadu, er mwyn atal plant rhag cael eu symud i mewn i'r system ofal unwaith eto a lleihau faint o amser y maent yn ei dreulio yn aros i adael gofal drwy gael eu mabwysiadu.

Ar ôl buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru, cyflwynodd y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol **Fframwaith Cymorth Mabwysiadu** tair haen yn 2016, sy'n nodi'r "cynnig" yng Nghymru i'r rhai y mae mabwysiadu yn effeithio arnynt. Mae'r math o gymorth a gynigir yn cynnwys y canlynol ar dair lefel:

- Cymorth Cyffredinol

- Gwasanaethau Wedi'u Targedu
- Cymorth Arbenigol

O ran busnes craidd, mae'r gwelliannau canlynol wedi cael eu sicrhau:

- Mae mabwysiadwyr yn cael eu cymeradwyo mewn modd amserol, sef 6.4 mis ar gyfartaledd rhwng cais ffurfiol a chymeradwyo a 10 mis rhwng ymholiad a chymeradwyo. Mae'r naill a'r llall dipyn yn is na'r hyn a welwyd cyn i'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol gael ei sefydlu, fel y nodwyd ar adeg ymchwiliad gwreiddiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Mae plant yn cael eu lleoli mewn modd amserol, sef naw mis ar gyfartaledd ar ôl i'r gorchymyn lleoli gael ei roi
- Roedd cyfran y plant a adawodd y system plant sy'n derbyn gofal drwy gael eu mabwysiadu yn 18% yn 2019-20.

Mae'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol wedi meithrin cydberthnasau cynhyrchiol ag amrywiaeth eang o bartneriaid, gan gynnwys Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol yng Nghymru. Mae asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol yn disgrifio ymdeimlad clir o bartneriaeth yn genedlaethol, ac yn gynyddol yn rhanbarthol, sy'n llywio eu gwaith cynllunio busnes a dealltwriaeth o'u sefyllfa â'r elfennau o'r sector sy'n rhan o lywodraeth leol. Mae'r cydberthnasau rhwng yr asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol a'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn aeddfedu ymhellach yn rhanbarthol ac ar lefel awdurdodau lleol drwy ddatblygiadau allweddol gwasanaethau a ariennir ar y cyd, megis TESSA, Connected a Mabwysiadu Gyda'n Gilydd.

TESSA (Gwasanaethau Therapiwtig, Addysg a Chymorth ym maes Mabwysiadu)

Yn dilyn buddsoddiad ychwanegol o £2.3m gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol a Llywodraeth Cymru, nod **TESSA** yw cefnogi teuluoedd sy'n mabwysiadu sydd â phlant rhwng 2 a 12 oed. Mae'r cynllun yn helpu rhieni sy'n mabwysiadu i feithrin y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i alluogi eu plentyn i ddechrau adfer o drawma yn gynnar yn ystod plentyndod, gan wella ei siawns o ddilyn llwybr datblygu iach unwaith eto. Bwriedir iddo gael ei ddefnyddio fel cymorth ymyrryd yn gynnar ac atal i deuluoedd a allai wynebu effeithiau trawma yn gynnar yn ystod plentyndod. Mae gan bob gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol gydgyssylltydd TESSA, a daw pob atgyfeiriad o'r fath at raglen TESSA drwy'r timau mabwysiadu rhanbarthol.

Mabwysiadu Gyda'n Gilydd

Gwasanaeth mabwysiadu cydweithredol yw Gwasanaeth Mabwysiadu Gyda'n Gilydd, sy'n cael ei arwain gan Gymdeithas Plant Dewi Sant a'i gefnogi gan Lywodraeth Cymru a'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yng Nghymru. Mae'r gwasanaeth yn dwyn ynghyd yr holl asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol yng Nghymru i ddod o hyd i deuluoedd sy'n mabwysiadu ar gyfer y plant mwyaf agored i niwed sydd wedi bod yn aros am yr amser hwyaf yng Nghymru. Mae'r plant hyn fel arfer yn cynnwys:

- brodyr a chwiorydd y mae angen iddynt aros gyda'i gilydd
- plant dros 4 oed
- plant ag anghenion ychwanegol neu ansicrwydd ynglŷn â'u datblygiad
- plant o gefndir du, Asiaidd a lleiafrif ethnig (BAME).

Connect

Mae gwasanaeth **Connect** yn cael ei ariannu'n gydweithredol a'i ddarparu ledled Cymru drwy ddefnyddio buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru; ar hyn o bryd, mae'n gweithio tuag at gyflawni 'Nod Barcut Cyfranogi' Plant a Phobl Ifanc. Mae'n darparu gwasanaeth cymorth seiliedig ar grŵp ('Connected') yn ogystal â datblygu cyngor a gwybodaeth wedi'u teilwra i blant a phobl ifanc sydd wedi'u mabwysiadu, a fydd ar gael ar y we. Ochr yn ochr â hyn, mae cyfleoedd ymgysylltu a chyfranogi i blant a phobl ifanc sydd wedi'u mabwysiadu, yn ogystal â Chynllun Llysgennad Ifanc newydd i bobl ifanc 18–25 oed.

Cofrestr Fabwysiadu Cymru

Drwy gyllid gan Lywodraeth Cymru, mae'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol wedi gwneud Cofrestr Fabwysiadu Cymru yn un fewnol ac wedi moderneiddio a diweddarau ei chyfleusterau. Mae'r Gofrestr bellach yn darparu cronfa ddata bwrpasol at ddefnydd asiantaethau mabwysiadu (gan gynnwys asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol) yng Nghymru. Mae'n rhoi mynediad at ddata er mwyn sicrhau tystiolaeth well a sbarduno gwelliannau mewn gweithgarwch mabwysiadu ledled Cymru, yn enwedig o ran y plant hynny sy'n fwy anodd eu lleoli gyda darpar rieni. Mae'r system hefyd yn gwella trefniadau cymorth mabwysiadu drwy ddarparu system 'cadw mewn cysylltiad' i fabwysiadwyr a'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol.

Astudiaeth Carfan Mabwysiadu Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi yn Astudiaeth Carfan Mabwysiadu Cymru, sydd wedi'i chynnal gan ymchwilyr ym Mhrifysgol Caerdydd.

Mae'r astudiaeth yn dilyn nifer o deuluoedd dros bum mlynedd, gan edrych ar fywydau mabwysiadwr a'u profiadau o gael gafael ar wasanaethau cymorth mabwysiadu. Mae'r astudiaeth yn rhoi tystiolaeth hollbwysig wrth hyrwyddo mabwysiadu llwyddiannus yng Nghymru, a'i nod yw ymchwilio i ba ffactorau, neu nodweddion, sy'n sail i lwyddiant lleoliadau cynnar i deuluoedd sydd wedi mabwysiadu plant yng Nghymru. Yn benodol, mae'r ymchwil wedi rhoi gwybodaeth amhrisiadwy sydd wedi galluogi'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru i ddatblygu ymatebion a fydd yn helpu i gynnal mabwysiadu yn fwy effeithiol byth; a recriwtio mwy o fabwysiadwyr addas o ganlyniad i feithrin dealltwriaeth lawn o'r pwysau ar deuluoedd sy'n mabwysiadu, a'u llwyddiannau, a'r ffyrdd gorau o'u cefnogi yn eu rôl. Felly, drwy'r ymchwil hon, bu modd cyfeirio cyllid er mwyn rhoi cymorth a darpariaeth lle mae eu hangen fwyaf.

Canllawiau Arferion Da

Mae'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol wedi cefnogi mentrau a chyfleoedd dysgu sy'n ceisio gwella gwybodaeth ac ymarfer mabwysiadu yng Nghymru. Mae'r canllawiau arferion da canlynol wedi cael eu cyhoeddi i gefnogi'r sector:

- Recriwtio mabwysiadwyr 2015 a 2019
- Canfod Teulu 2016 (i'w adolygu a'i ddiweddarau)
- Gwaith Taith Bywyd 2017
- Cyswllt (2020)
- Gweithio gyda Rhieni Biolegol (2020)
- Pontio a Chymorth Cynnar (2020)
- Cymorth Mabwysiadu (2020)

Ymgorffori'r fframwaith gwaith taith bywyd newydd

Mae angen i bob plentyn na all ei deulu biolegol ofalu amdano ddeall ei hanes teuluol a'i daith unigryw drwy ddeunyddiau taith bywyd sy'n cefnogi hunaniaeth plentyn, yn hyrwyddo hunan-barch, ac yn helpu i roi ymdeimlad o berthyn a llesiant i'r plentyn. Drwy fuddsoddiad Llywodraeth Cymru, mae'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn parhau i weithio i wella cynnwys, ansawdd ac argaeledd deunyddiau Taith Bywyd i blant a phobl ifanc sydd wedi'u mabwysiadu, a'u teuluoedd. Lansiwyd y Fframwaith a'r Canllaw Arferion Da ar gyfer Gwaith Taith Bywyd yng Nghymru yn 2016, ac mae'n parhau i gael ei roi ar waith. Drwy fuddsoddiad Llywodraeth Cymru, bu modd creu swydd 'cydgysylltydd' hyrwyddwyr ym mhob un o'r pum rhanbarth sy'n rhan o'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, er mwyn cyflwyno'r dull gweithredu yn fwy cyson.

Adroddiad Baromedr

Paratodd Adoption UK ei adroddiad Baromedr Mabwysiadu yn 2019. Mae'r adroddiad, a luniwyd drwy arolygon o fabwysiadwyr a'u teuluoedd, yn rhoi astudiaeth gynhwysfawr o'r 'profiad ymarferol' o fabwysiadu yn y DU ac yng Nghymru, a gall y data a gasglwyd gael eu defnyddio i lywio cyfeiriad polisi yn y dyfodol ar gyfer gwasanaethau cymorth mabwysiadu. Dangosodd yr adroddiad fod y sefyllfa yng Nghymru, o'i chymharu â gwledydd eraill y DU, yn gadarn ar y cyfan, gan adlewyrchu cam datblygu darpariaeth y polisi ar gyfer mabwysiadu. Yn benodol, ers ei lansio, mae Cymru wedi cael y sgôr uchaf yn gyffredinol o ran profiad mabwysiadwyr, yn enwedig mewn perthynas â'r buddsoddiadau a wnaed yng Nghymru. Mae hyn wedi'i brofi'n benodol mewn meysydd megis datblygu pecyn cymorth ar gyfer cofnodi gwaith stori bywyd plant ac effaith y premiwm i ddisgyblion ynghyd â gwaith mewn ysgolion yng Nghymru.

Eitem Etifeddol 4 Mabwysiadu

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol i ddatblygu ei model cydweithredol a'i gweledigaeth ar gyfer y dyfodol a sicrhau ei bod yn dal i fod yn addas at y diben.

Drwy'r buddsoddiad, mae'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol wedi llwyddo i ddatblygu gwasanaethau newydd a chynyddu lefel y cymorth sydd ar gael i deuluoedd sy'n mabwysiadu ledled Cymru. Mae niferoedd sylweddol o blant a phobl ifanc sydd wedi'u mabwysiadu a'u teuluoedd bellach yn cael cymorth nad oedd yn bodoli cyn hyn. Mae'r gwasanaethau hyn wedi cael eu cydgynhyrchu â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd, gan greu gwasanaethau cydweithredol cyffredin newydd ar draws llywodraeth leol a'r trydydd sector. Bydd y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn parhau i ddatblygu a gwella gwasanaethau cymorth.

Nod y trefniadau llywodraethu symlach newydd a'r Cytundeb Partneriaeth newydd yw gwella atebolrwydd ymhellach a galluogi'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol i weithredu'r model comisiynu. Ar y cyd â hyn, bydd ymdrech i geisio cefnogaeth awdurdodau lleol i ystyried rhannu adnoddau a gwasanaethau mewn ffyrdd gwahanol ochr yn ochr â datblygu arferion gorau a sicrhau'r modelau cyflawni gorau posibl.

Swyddogaeth graidd barhaus y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn y dyfodol fydd parhau i sicrhau bod digon o deuluoedd sy'n mabwysiadu ar gael i roi pob plentyn ar lwybr mabwysiadu mewn modd amserol, yn ogystal â darparu gwasanaethau o ansawdd uchel yn ei swyddogaethau eraill.

Bydd y gwaith o roi'r canllawiau arferion da a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar waith yn parhau, ochr yn ochr â gwaith pellach yn ystod y ddwy flynedd nesaf ar y swyddogaeth Canfod Teulu. Mae'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol eisoes yn moderneiddio'r broses fabwysiadu yng Nghymru; bydd y gwaith hwn yn ei roi mewn sefyllfa dda i lywio/gweithredu unrhyw newidiadau sy'n deillio o'r Gweithgor ar Gyfraith Gyhoeddus sy'n ystyried diwygiadau i gyfraith ac arferion mabwysiadu.

Blaenoriaeth arall fydd datblygu'r fframwaith perfformiad ymhellach i gynnwys mwy o fesurau o ganlyniadau. Mae angen gwella elfennau eraill o'r gwasanaeth, e.e. oedolion sy'n ceisio gwybodaeth/cyswllt â'u teulu biolegol.

Ffrwd waith 3: Helpu plant sy'n derbyn gofal i gael y daith orau bosibl drwy ofal ac i fod yn oedolion

Mae'r rhaglen Gwella Canlyniadau i Blant wedi anelu at sicrhau bod y rhai sy'n derbyn gofal neu sydd wedi derbyn gofal gan awdurdodau lleol yn cael cymorth effeithiol i oresgyn profiadau andwyol a sicrhau'r un cyfleoedd bywyd â phlant eraill. Mae gan bob asiantaeth sy'n ymwneud â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd rôl i'w chwarae, gan ddarparu amrywiaeth o wasanaethau a chymorth ar bob cam o fywyd plentyn mewn angen.

Mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldebau rhianta corfforaethol dros blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, a dyletswyddau mwy cyffredinol o ran hyrwyddo lles plant mewn angen. O dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae cyfrifoldeb ar y cyngor cyfan i sicrhau bod pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt yn cael y cymorth cywir ar yr adeg gywir i wella eu llesiant a'u diogelu rhag niwed. Mae'r rhain yn cyfrannu at gynnig model integredig o wasanaethau i blant a phobl ifanc lle mae cyrff eraill yn y sector cyhoeddus megis gwasanaethau iechyd a'r heddlu, a sefydliadau yn y trydydd sector, yn chwarae rôl hollbwysig. Drwy'r dull gweithredu traws-sector hwn, rydym wedi ceisio creu amgylcheddau a chyfleoedd sy'n galluogi plant i ddatblygu, ffynnu a gwireddu eu potensial.

Cyrhaeddiad Addysgol

Mae gan bob plentyn yng Nghymru, gan gynnwys y rhai sy'n derbyn gofal, yr hawl i ddisgwyl addysg ragorol, ni waeth beth fo'i amgylchiadau. Mae cryn gydnabyddiaeth y gall cyrhaeddiad addysgol da gynnig y porth i sefydlogrwydd, diogelwch a bywyd boddhaus ac annibynnol yn y dyfodol. Ym mis Ionawr 2016, cyhoeddwyd *Codi uchelgais a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru*, sef cynllun tair blynedd ar y cyd rhwng gwasanaethau cymdeithasol ac addysg i helpu i atgyfnerthu'r trefniadau sydd ar waith i gefnogi addysg plant sy'n derbyn gofal. Aethpwyd ati mewn ffordd amlasiantaethol i gymryd y camau gweithredu yn y cynllun, a bu hynny'n gymorth i feithrin dealltwriaeth well o'r rhwystrau a wynebir gan blant sy'n derbyn gofal fel dysgwyr mewn addysg a'r modd y gall gwasanaethau cymdeithasol ac addysg weithio gyda'i gilydd i sicrhau gwell canlyniadau.

Pan ddaeth y strategaeth i ben yn 2019, sefydlwyd gweithgor a oedd yn cynnwys aelodau o Grŵp Cyngori'r Gweinidog a rhanddeiliaid o wasanaethau cymdeithasol, addysg a'r trydydd sector er mwyn helpu i nodi blaenoriaethau addysg yn y dyfodol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Ar ôl myfyrio ar gyflawniadau'r cynllun tair blynedd, cytunwyd i ymgymryd â gwaith i ystyried dull integredig a chyfannol o gefnogi plant sy'n derbyn gofal. Comisiynwyd Syr Alasdair Macdonald i gynnal ymarfer cwmpasu rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2020, gan ystyried dull integredig o wella deilliannau addysgol i blant sy'n derbyn gofal.

Amlinellodd ei adroddiad⁸ yr arferion da sydd eisoes ar waith yng Nghymru a chanolbwyntiodd hefyd ar rannau o'r system nad ydynt yn gweithio cystal, megis yr amrywiad rhwng awdurdodau lleol o ran y ffordd y maent yn cefnogi plant sy'n derbyn gofal mewn addysg. Nododd ei adroddiad bum argymhelliad:

1. Datblygu model Ysgolion Rhithwir i Gymru
2. Y lefel o adnoddau sydd ei hangen i alluogi dull integredig sy'n gwella deilliannau
3. Pwysigrwydd data o'r radd flaenaf
4. Y goblygiadau ar gyfer hyfforddiant
5. Yr angen i ehangu mesurau'r hyn y bernir yw deilliannau addysgol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal

Mae gwaith pellach yn mynd rhagddo i ddysgu o waith arloesol yn Sir Gaerfyrddin a'r model Ysgolion Rhithwir, yn Lloegr a'r Alban, fel sail i ddull gweithredu yng Nghymru, a bydd angen parhau i weithredu arno yn ystod tymor y Senedd nesaf. Prosiect trawsbynciol ydyw, sy'n effeithio ar addysg, gwasanaethau cymdeithasol, iechyd a chyflogaeth, ac mae'n gyfle i fwrw ymlaen â gwaith er mwyn sicrhau nifer o fuddiannau.

⁸ llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-07/dull-integredig-o-wella-canlyniadau-addysgol-i-blant-syn-derbyn-gofal-yng-nghymru-adroddiad.pdf

Eitem Etifeddol 5 Cyrhaeddiad Addysgol

Yn y dyfodol, rydym am sicrhau bod addysg plant sy'n derbyn gofal yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel i adrannau addysg a gwasanaethau cymdeithasol fel ei gilydd. Mae ysgolion yn cynnig amgylchedd sefydlog i lawer o blant mewn angen neu blant mewn gofal. Gall fod yn rhan bwysig o'r diwrnod lle ceir ymdeimlad o normalrwydd, i ffwrdd o'r hyn a all fel arall fod yn fywydau di-drefn.

O dan ein cenhadaeth genedlaethol, rydym yn ymrwmo i gyflwyno cwricwlwm trawsnewidiol newydd gyda chymorth ysgolion cadarn a chynhwysol sy'n ymrwymedig i ragoriaeth, cydraddoldeb a llesiant. Mae Llywodraeth Cymru wedi addo cryfhau prosesau gweithio mewn partneriaeth i sicrhau deilliannau gwell i blant sy'n derbyn gofal, a bydd angen parhau â'r gweithgarwch sydd eisoes yn mynd rhagddo er mwyn iddo barhau'n flaenoriaeth allweddol yn ystod tymor y Senedd nesaf.

Rydym yn cydnabod yr effaith y mae'r pandemig wedi ei chael, ac yn parhau i'w chael, ar ddysgwyr, yn enwedig y dysgwyr mwyaf agored i niwed a phlant sy'n derbyn gofal. Mae wedi effeithio ar ddysgwyr mewn ffyrdd gwahanol – eu cynnydd a'u hiechyd corfforol, eu hiechyd meddwl a'u llesiant yn enwedig. Mae'r amrywiaeth hon o brofiadau yn golygu y bydd angen inni alluogi ysgolion ac athrawon i helpu eu dysgwyr i ddatblygu ar hyd eu llwybrau dysgu eu hunain, wrth iddynt ddychwelyd yn llawn i ddysgu wyneb yn wyneb.

Dull Ysgol Rithwir

Mae'r dull Ysgol Rithwir yn golygu gweithio gyda phlant sy'n derbyn gofal (ac, mewn rhai achosion, pobl ifanc mewn darpariaeth ôl-16), fel pe baent yn un ysgol a chodi cyrhaeddiad addysgol, gwella presenoldeb a gwella sefydlogrwydd addysgol. Mae ysgolion rhithwir yn statudol yn Lloegr.

Nid yw'r ysgol yn bodoli mewn gwirionedd, nac ar ffurf adeilad. Nid yw plant yn ei mynychu – mae'r ysgol lle maent wedi'u cofrestru yn dal yn gyfrifol amdanynt. Adnodd sefydliadol yw ysgol rithwir, sydd wedi'i greu i gydlynu cymorth ar gyfer y grŵp agored i niwed hwn yn effeithiol ar lefel strategol a gweithredol.

Mae Deddf Plant a Theuluoedd 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol yn Lloegr benodi Pennaeth Ysgol Rithwir, er mwyn cyflawni dyletswydd yr awdurdod lleol i hyrwyddo cyflawniad addysgol y plant sy'n derbyn gofal ganddo. Mae'n rhaid i'r unigolyn hwnnw fod yn swyddog a gyflogir gan yr awdurdod lleol neu, lle mae awdurdodau lleol yn cytuno i gydweithredu neu rannu'r rôl, awdurdod lleol arall yn Lloegr.

Fel yn achos ysgolion prif ffrwd sydd â chyrrff llywodraethu, mae gan lawer o ysgolion rhithwir bwyllgor rheoli. Mae hwn yn cynnig haen arall o graffu, atebolrwydd a chymorth i Bennaeth yr Ysgol Rithwir a'r Ysgol Rithwir.

Rôl Ysgol Rithwir yw:

- Dylanwadu ar bolisiau a datblygu a gwella gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal
- Hyrwyddo cyflawniad, iechyd a llesiant unigolion
- Rhoi cyngor, cymorth a hyfforddiant i weithwyr proffesiynol, ysgolion a gofawyr
- Gwella'r gallu i gael gafael ar wasanaethau arbenigol, gan gynnwys asesiadau iechyd, asesiadau iechyd meddwl a thriniaeth
- Sicrhau bod cyngor ac arweiniad proffesiynol ar addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ar gael
- Hyrwyddo cyfleoedd ychwanegol ar gyfer dysgu a hamdden y tu allan i'r ysgol.

Canfu gwerthusiad o'r cynllun peilot yn Lloegr fod ffigurau cyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal yn well ar y cyfan yn ardaloedd y cynllun peilot nag yr oeddent yn genedlaethol.

Model Sir Gaerfyrddin

Mae Cyngor Sir Gâr wedi datblygu gwasanaeth addysg a phlant integredig. Mae'r awdurdod wedi ymrwmo i gyflwyno newid systemig dros nifer o flynyddoedd o dan arweinyddiaeth strategol ei adran addysg a gwasanaethau plant integredig, sy'n cynnwys egwyddorion tebyg i fodolau Ysgolion Rhithwir ledled y DU. O ganlyniad, mae bellach yn cofnodi gwelliannau sylweddol o ran cyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal, a hynny yn yr ysgol a'r tu hwnt. Mae'r newidiadau wedi bod yn fuddiol i blant agored i niwed yn

fwy cyffredinol, drwy gyflwyno timau amlbroffesiynol a hyfforddiant system gyfan ar arferion a lywir gan drawma. Mae'r awdurdod lleol hefyd yn cymryd ei gyfrifoldeb fel rhiant corfforaethol o ddifrif, drwy gynnig cyfleoedd yn y dyfodol megis swyddi dan hyfforddiant a phrentisiaethau i'r plant yn ei ofal.

Fel rhan o'r dull gweithredu hwn, mae cryn ffocws ar hyfforddiant: hyfforddiant i staff ysgol; a hyfforddiant i ofalwyr maeth, mabwysiadwyr, gweithwyr cymdeithasol, gwasanaethau ieuencid ac ysgolion ar fodolau ac adnoddau sy'n ymwneud â chydberthnasau ac sy'n ymwybodol o ymlyniadau. Ers iddo newid ei ddull gweithredu, mae'r cyngor wedi bod yn monitro'r effaith. Yn 2018, cyflawnodd 71.4% o blant sy'n derbyn gofal y dangosydd pynciau craidd ar gyfer cyfnod allweddol 2, sef 11.2% yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan.

Mae IFF Research wrthi'n gwneud gwaith ymchwil gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2021.

Mae IFF Research yn ymgysylltu â phartneriaid ym maes addysg a gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys cyfarwyddwyr addysg, cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol, penaethiaid gwasanaethau plant, cydgysylltwyr addysg plant sy'n derbyn gofal awdurdodau lleol a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Bydd yr ymchwil yn llywio adroddiad terfynol a fydd yn cynnwys argymhellion i Lywodraeth Cymru. Bydd yr adroddiad yn galluogi Llywodraeth Cymru i ddatblygu polisiau i gefnogi plant sy'n derbyn gofal mewn addysg yn y dyfodol.

Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n derbyn gofal

Drwy gydol tymor y Senedd hon, mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi plant sy'n derbyn gofal mewn addysg drwy ddarparu tua £5 miliwn bob blwyddyn drwy'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Y consortia addysg rhanbarthol sy'n gweinyddu'r grant hwn, ar y cyd ag awdurdodau lleol ac ysgolion. Yn ogystal â chyllid uniongyrchol i gefnogi plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal, mae'r cyllid yn cynnwys darpariaeth ar gyfer pedwar cydgysylltydd arweiniol rhanbarthol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal; un ar gyfer pob un o'r consortia addysg rhanbarthol. Mae'r cydgysylltwyr yn cydweithio'n agos â'i gilydd a chyda Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod y Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn cael yr effaith fwyaf posibl ac yn sicrhau'r gwerth mwyaf am arian.

Mae'r cyllid yn seiliedig ar £1,150 fesul plentyn sy'n derbyn gofal; ond nid yw'r cyllid wedi'i neilltuo'n benodol ar gyfer pob plentyn. Mae'r dull gweithredu hwn yn ei gwneud yn bosibl i gonsortia, gan weithio gyda phartneriaid, bennu'r ymyriadau strategol mwyaf effeithiol i gefnogi pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, ni waeth beth fo'r newidiadau o ran lleoliad gofal neu ysgol. Ym mis Ebrill 2019, rhoddodd Llywodraeth Cymru drefniadau cryfach, newydd ar waith ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, gyda'r nod o gael mwy o gysondeb yn genedlaethol er mwyn sicrhau'r deilliannau addysgol gorau i'r plant hyn.

Hefyd, cyflwynwyd yr elfen ddiweddaraf o'r Grant Datblygu Disgyblion, sef y Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad, yn 2018–19, er mwyn rhoi cymorth ychwanegol yn uniongyrchol i deuluoedd y mae ei angen arnynt fwyaf i helpu i dalu rhai o'r costau sy'n gysylltiedig â'r diwrnod

ysgol, gan gynnwys gwisg ysgol. Ers ei gyflwyno, rydym wedi mwy na dyblu'r cyllid i fwy na £5m, gan ein galluogi i gefnogi mwy o ddysgwyr. Cyfrifir yr elfen hon mewn ffordd wahanol i'r Grant Datblygu Disgyblion cyffredinol gan mai math o fudd-dal ydyw. Mae cyllid y Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad ar gael i blant sy'n derbyn gofal ym mhob blwyddyn ysgol orfodol mewn sefyllfaoedd lle mae'r awdurdodau lleol yn gweithredu fel y rhiant corfforaethol, ac nid yw cymhwysedd yn ystyried incwm y teulu maeth.

Llesiant yn y Sector Maethu

Dyfarnwyd cyllid i'r Rhwydwaith Maethu gyflwyno Llesiant Maethu, sef rhaglen beilot sydd â'r nod o brofi a gwerthuso egwyddorion addysgeg gymdeithasol mewn amgylchedd gofal maeth. Bu'r rhaglen beilot yn llwyddiannus ac mae'n cael ei hymestyn i ranbarthau eraill yng Nghymru.

Rhianta Corfforaethol

Mae dyletswydd gyfreithiol a moesol ar awdurdodau lleol yng Nghymru i roi cymorth i'r plant yn eu gofal. Fel Rhiant Corfforaethol, mae cyfrifoldeb ar awdurdod lleol i gadw'r plant yn ei ofal yn ddiogel, i sicrhau bod eu profiadau pan fyddant mewn gofal yn gadarnhaol, ac i wella eu gallu i gael gafael ar gyfleoedd i'w helpu i lwyddo mewn bywyd. Mae cyfrifoldeb ar aelodau etholedig i sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yn gallu ffynnu, a'u bod yn cael eu meithrin, eu cefnogi, eu haddysgu a'u paratoi ar gyfer byd oedolion yn y ffordd y byddai unrhyw riant yn ei dymuno ar gyfer ei blant ei hun.

Er bod awdurdodau lleol yn cymryd rhianta corfforaethol o ddifrif, mae'n aml yn cael ei ystyried yn un o swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol plant ac aelodau etholedig, yn hytrach na'r awdurdod cyfan. Cyflwynwyd Papur ar Rianta Corfforaethol gan y Cabinet ym mis Tachwedd 2019, a oedd yn amlinellu ein nod o atgyfnerthu trefniadau rhianta corfforaethol ym mhob un o adrannau'r awdurdod lleol, a galluogi gwasanaethau i weithio mewn partneriaeth yn well a sicrhau cyfnodau pontio gwell i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal – ym maes addysg neu dai er enghraifft.

Fodd bynnag, mae plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal hefyd mewn cysylltiad ag amrywiaeth eang o wasanaethau cyhoeddus y tu allan i awdurdodau lleol, rhai wedi'u datganoli a rhai heb eu datganoli, e.e. y GIG, yr heddlu a'r system gyfiawnder, ac mae angen eu cymorth arnynt. Rydym hefyd yn bwriadu ehangu'r cysyniad o rianta corfforaethol ym mhob rhan o'r gwasanaethau cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal, er mwyn helpu i sicrhau bod plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn cael yr ymateb a'r cymorth gorau gan y gwasanaethau hyn.

Yn 2019, sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen, o dan gadeiryddiaeth David Melding AS, a oedd yn cynnwys aelodau o Grŵp Cyngori'r Gweinidog, i roi'r cynigion a nodwyd ym Mhapur y Cabinet ar waith. Cyfarfu'r grŵp ddwywaith a chynhaliodd ddigwyddiad i randdeiliaid, a oedd yn cynnwys plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal, ym mis Ionawr 2020.

Eitem Etifeddol 6 Rhianta Corfforaethol

Mae Grŵp Cyngori'r Gweinidog a'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi cytuno ar ffordd ymlaen glir a chynllun ar gyfer rhianta corfforaethol, ac wedi'u hamlinellu. Fodd bynnag, mae COVID-19 wedi cael effaith fawr ar y cynlluniau a oedd eisoes ar waith i ymestyn rhianta corfforaethol i bob rhan o'r gwasanaethau cyhoeddus. Ni fu modd cynnal digwyddiadau ymgysylltu i gael sgwrs genedlaethol â gwasanaethau cyhoeddus a rhanddeiliaid. Cytunwyd yn gyffredinol na fu'n amser priodol i ymgysylltu â'r sector cyhoeddus ehangach yn ystod y pandemig. Fodd bynnag, rydym am ailddechrau ar y gwaith hwn o'r newydd yn ystod tymor y Senedd newydd.

Cynigir y dylid ymgymryd â gweithgarwch mewn tri maes:

Siarter Wirfoddol

Rydym am gydgynhyrchu siarter wirfoddol y gall sefydliadau ymrwymo iddi, gan amlinellu eu hymrwymiad a'u cynnig unigryw i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Drwy'r siarter hon, bydd pob rhanddeiliad yn gallu ymrwymo i ddatganiad cyffredin am gymorth a gweithredu gwell wrth weithio gyda phlant sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Bydd y siarter yn fodd i'r rhai sydd wedi'i llofnodi amlinellu sut y byddant yn ymgysylltu â phlant sydd â phrofiad o fod mewn gofal a'r hyn y maent yn bwriadu ei wneud yn wahanol neu ei gynnig yn ychwanegol i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn y dyfodol. Bydd y siarter yn nodi egwyddorion craidd, a fydd yn cael eu hategu gan godau ymarfer diwygiedig lle y bo angen. Dylai ddiffinio'r disgwyliadau ar bob sefydliad partner o ran ymrwymiad ac ymgysylltu.

Sgwrs Genedlaethol

Er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu'r siarter wirfoddol, bwriedir cynnal ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid 12 wythnos o hyd i godi proffil rhianta corfforaethol ymhlith gwasanaethau cyhoeddus ac uwch-arweinwyr. Er mwyn codi proffil rhianta corfforaethol ymhlith sectorau gwahanol, bwriedir cynnal digwyddiadau ymgysylltu wedi'u targedu gydag awdurdodau lleol, y GIG, partneriaid ym maes tai ac eraill.

Canllawiau Statudol

Byddwn yn defnyddio ein pwerau deddfwriaethol presennol i atgyfnerthu canllawiau statudol, gan wneud rolau a chyfrifoldebau yn fwy eglur ac ymestyn dyletswyddau i bob rhan o'r sector cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys:

- Datblygu pennod newydd ar rianta corfforaethol yn Rhan 6 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.
- Diwygio Cod Rhan 9 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant i atgyfnerthu trefniadau partneriaeth â BILlau ac ALLau.
- Defnyddio canllawiau statudol ychwanegol i ymgorffori rhianta corfforaethol mewn gwasanaethau cyhoeddus eraill.

Iechyd Meddwl

Gwyddom fod cyfraddau problemau iechyd meddwl yn uwch ymhlith plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal na'r boblogaeth gyffredinol. Mae sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd â phroblemau iechyd a llesiant emosiynol (rhai a oedd yn bodoli eisoes ac o ganlyniad i bandemig COVID-19) yn cael cymorth a thriniaeth amserol a phriodol yn flaenoriaeth allweddol. Rydym yn parhau i fynd ati ar lefel gyffredinol i wella iechyd meddwl pobl ifanc, o weithgarwch atal ac ymyrryd yn gynnar i wella'r gallu i gael gafael ar wasanaethau arbenigol. Mae cynnydd wedi cael ei wneud o ran gwella cymorth iechyd meddwl i blant a phobl ifanc yng nghyd-destun y galw cynyddol am wasanaethau, ond mae lle i wella o hyd. Yr unig ffordd gynaliadwy o ymateb i'r galw cynyddol am gymorth iechyd meddwl a natur amlweddol y cymorth hwnnw yw sicrhau bod cymorth da ar gael i bawb, yn ogystal â mynediad da at wasanaethau arbenigol. Cyhoeddwyd fersiwn newydd o *Law yn Llaw at Iechyd Meddwl Cynllun Cyflawni: 2019-2022*⁹ ym mis Ionawr 2021, sy'n amlinellu'r meysydd allweddol â blaenoriaeth a'r camau gweithredu i'w cymryd dros y cyfnod hwn.

Ymestynnwyd y rhaglen Law yn Llaw at Bobl Ifanc tan fis Mawrth 2022. Mae ei gwaith yn cwmpasu tri maes allweddol: Cymorth Cynnar a Chymorth Lefel Uwch; gweithio gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol; a chymorth gwasanaethau niwroddatblygiadol. Bydd y Fframwaith NYTH Cymorth Cynnar a Chymorth Lefel Uwch terfynol yn cael ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2021, a'i nod yw creu systemau cadernid a chymorth fel rhan o ddull system gyfan i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Caiff darpariaeth ei thargedu at bobl ifanc y mae angen cymorth sy'n seiliedig ar angen arnynt ac na fyddent o reidrwydd yn

cyrraedd y trothwyon ar gyfer ymyriadau uniongyrchol o dan CAMHS. Mae Byrddau Partneriaethau Rhanbarthol yn gweithio gyda'r rhaglen i fabwysiadu'r Fframwaith a'i roi ar waith fel blaenoriaeth allweddol.

Ar ran Grŵp Cynghori'r Gweinidog, ymgynghorodd yr NSPCC a Voices from Care Cymru â phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal ynglŷn â chymorth ar gyfer eu hiechyd emosiynol a'u hiechyd meddwl. Cafodd pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal eu cynnwys ar bob cam – mewn grwpiau ffocws i geisio eu barn; drwy roi adborth ac ymgynghori ar argymhellion; ac yn ystod y digwyddiad lansio ei hun. Cafodd argymhellion ei adroddiad, *Gwranddo. Gweithredu. Ffynnu*, eu hintegreiddio â'r rhaglen Gwella Canlyniadau i Blant, ac maent wedi helpu i lywio gwaith Cymorth Cynnar a Chymorth Lefel Uwch Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc.

Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi'n sylweddol i wella gwasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys £15m o fuddsoddiad newydd i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddatblygu gwasanaethau cymorth therapiwtig. Hefyd, mae'n buddsoddi £2.5m i ddatblygu gwasanaethau cymorth mabwysiadu sy'n helpu plant sydd wedi'u mabwysiadu y mae angen math o gymorth emosiynol arnynt ond nad oes angen y gwasanaeth arbenigol a ddarperir gan CAMHS (Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed) arnynt o reidrwydd.

9 llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-06/law-yn-llaw-at-iechyd-meddwl-cynllun-cyflawni-2019-22_0.pdf

Cymorth i bobl ifanc sy'n gadael gofal

Fel rhieni corfforaethol, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol helpu pobl ifanc yn eu gofal i symud tuag at fod yn annibynnol mewn modd tebyg i rieni sydd â phlant sy'n byw gartref gyda nhw. Mae rhoi cymorth ac arweiniad priodol i berson ifanc ar gam cynnar yn ei daith tuag at fod yn annibynnol yn helpu i sicrhau'r cyfleoedd bywyd gorau posibl.

Yn 2017, cyhoeddodd y Comisiynydd Plant ei hadroddiad Uchelgeisiau Cudd, sy'n ystyried y cymorth sydd ar gael i bobl ifanc sy'n gadael gofal. Roedd ei hadroddiad yn galw am weithredu gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a'r trydydd sector, er mwyn sicrhau y gall pobl ifanc sy'n gadael gofal gael yr un disgwyliadau o ran gofal a chymorth â'u cyfoedion. Mewn ymateb, gwnaethom integreiddio argymhellion yr adroddiad â chynllun gwaith Grŵp Cynghori'r Gweinidog a thargedu cyllid ychwanegol at helpu i gyflawni'r camau gweithredu hyn. Roedd hyn yn cynnwys:

- Sefydlu Cronfa Dydd Gŵyl Dewi, gwerth £1m, er mwyn helpu pobl ifanc sy'n gadael gofal i fanteisio ar gyfleoedd ym maes addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.
- Darparu £625k i awdurdodau lleol ddatblygu prentisiaethau a swyddi dan hyfforddiant o fewn yr awdurdod lleol, gan weithredu fel rhieni corfforaethol da.
- Darparu £1m i awdurdodau lleol fel y gellir darparu cymorth Cynghorydd Personol i bob unigolyn sy'n gadael gofal hyd at 25 oed.
- Deddfu i sicrhau bod pobl ifanc sy'n gadael gofal ac yn symud ymlaen i addysg uwch yn cael lefel uchaf y grant cynhaliath o 2018–19.

- Deddfu ym mis Ebrill 2019, i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol eithrio pobl ifanc sy'n gadael gofal rhag talu'r dreth gyngor, sef cam mawr ymlaen yn ein gwaith i helpu pobl ifanc i bontio tuag at fod yn annibynnol.

Nododd y Comisiynydd Plant ymateb cadarn Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i weithredu ar ei hargymhellion yn ei hadroddiad dilynol.

Mae **Cronfa Dydd Gŵyl Dewi**, gwerth £1m, wedi rhoi cymorth ariannol uniongyrchol i bobl ifanc sy'n gadael gofal er mwyn iddynt allu manteisio ar gyfleoedd a fydd yn eu helpu i bontio'n llwyddiannus tuag at fyw'n annibynnol a bywydau llwyddiannus fel oedolion. Yn 2017-18, cafodd bron 2,000 o bobl ifanc gymorth o dan y gronfa, ac mae'n parhau i helpu pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal bob blwyddyn i fanteisio ar gyfleoedd ym maes addysg/hyfforddiant a sicrhau cyfnodau pontio didrafferth tuag at fod yn annibynnol. Ym mlwyddyn ariannol 2019-20, cafodd y gronfa ei dyblu i gefnogi pobl ifanc mewn perthynas â thai, ac yn ystod COVID-19, mae'r gronfa wedi'i defnyddio i gefnogi pobl ifanc y mae'r pandemig wedi cael effaith andwyol arnynt. Mae cronfa galedi ychwanegol gwerth £1m ar gyfer COVID-19 wedi cael ei datblygu, sy'n debyg i Gronfa Dydd Gŵyl Dewi, er mwyn cefnogi unrhyw anghenion ychwanegol.

Mae'r cyllid ychwanegol o £1m i ymestyn cymorth **Cynghorwyr Personol** i bobl ifanc 21-25 oed sydd wedi gadael gofal wedi golygu cynnydd yn nifer y Cynghorwyr Personol sydd wedi'u recriwtio ledled Cymru, ac mae mwy o bobl ifanc sydd wedi gadael gofal nag erioed yn manteisio ar y cymorth estynedig a gynigir (cafodd 500 o bobl ifanc hyd at 25 oed a oedd wedi gadael gofal y cymorth estynedig a gynigir yn y flwyddyn gyntaf yn unig). Er mwyn cadarnhau ein hymrwymiad yn y maes hwn a helpu i sicrhau mwy o gysondeb, byddwn yn deddfu yn

ystod tymor y Senedd nesaf i sicrhau bod gan bob person ifanc sy'n gadael gofal yr hawl i gael Cynghorydd Personol hyd at 25 oed fel dyletswydd statudol.

Mae cyfleoedd ar gyfer **hyfforddiant a phrentisiaethau** hefyd wedi cael eu hymestyn drwy gyllid gwerth £625k i awdurdodau lleol, fel y gall pobl ifanc gymryd rhan mewn lleoliad gwaith neu swydd dan hyfforddiant yn eu hawdurdod lleol. Mae astudiaethau achos yn tynnu sylw at yr holl gyfleoedd sydd wedi'u cynnig, er enghraifft gweithio yn ysgolion, lleoliadau gofal, gwasanaethau ieuencid a gweithgareddau adfywio awdurdodau lleol. Mae hon yn enghraifft o rianta corfforaethol da.

Drwy'r rhaglen Gwella Canlyniadau i Blant, rydym wedi ystyried ffyrdd o helpu pobl ifanc i fod yn annibynnol. Mae sawl prosiect ar waith lle mae cyllid wedi cael ei ddarparu at y diben hwn. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi rhaglenni Sgiliau Byw/Sgiliau a Mwy Gweithredu dros Blant Mae Grŵp Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai ar y cyd wedi cael ei sefydlu i ddatblygu opsiynau llety i bobl ifanc sy'n gadael gofal, ac atal digartrefedd ymhlith pobl ifanc.

Nod y **Gronfa Arloesi ar gyfer Pobl Ifanc Ddigartref**, gwerth £4m, yw helpu prosiectau i gyflwyno dulliau arloesol o gartrefu pobl ifanc. Mae'r prosiectau hyn wedi'u hanelu'n benodol at bobl ifanc 16–25 oed sy'n wynebu risg o fynd yn ddigartref neu sy'n ddigartref ar hyn o bryd, gyda nifer ohonynt yn canolbwyntio'n benodol ar gefnogi pobl ifanc sy'n gadael gofal. Mae 25 o brosiectau ar waith yng Nghymru ar hyn o bryd.

Fel rhan o gyllid y Grant Cymorth Ieuencid, mae awdurdodau lleol wedi penodi Cydgysylltydd Digartrefedd Ieuencid, wedi'i leoli yn y gwasanaeth ieuencid, sy'n gweithio gyda'i gydweithwyr ym maes tai a gwasanaethau cymdeithasol er mwyn sicrhau bod y rhai sy'n wynebu risg o fynd yn ddigartref yn cael eu nodi ar y cyfle cyntaf posibl, a'u cefnogi.

Rydym yn parhau i ariannu elusen Shelter Cymru i ddarparu gwasanaeth pwrpasol i bobl ifanc, gan roi cyngor a chymorth i'w helpu i gynnal tenantiaethau ac osgoi digartrefedd. Mae hyn yn cynnwys llinell gyngor, cyfleuster sgwrsio ar-lein a gwybodaeth am ei gwefan. Mae llinell gyngor Shelter Cymru a llinell gymorth digartrefedd ieuencid Llamau bellach wedi cael eu cysylltu â'i gilydd, felly dim ond un rhif y bydd angen i bobl ifanc ei ffonio ddydd a nos er mwyn cael cymorth.

Eitem Etifeddol 7 Pobl Ifanc sy'n Gadael Gofal

Mae'n bwysig bod pobl ifanc sy'n gadael gofal yn cael cymorth da i bontio o'r system ofal i fyw'n annibynnol. Mae hyn yn fuddsoddiad gwirioneddol yn nyfodol unigolion, sy'n ennyn ymdeimlad o werth personol, gobaith ac uchelgais. Bydd hefyd yn galluogi pobl ifanc i gyfrannu'n gadarnhaol at eu cymunedau.

Mae amrywiaeth o opsiynau llety ar gael i bobl ifanc ar hyn o bryd, gan gynnwys y rhai sy'n gadael gofal, ond cydnabyddir bod angen sicrhau bod cyflenwad digonol o lety priodol o ansawdd da ar gael i ateb y galw.

Hefyd, mae'r Comisiynydd Plant wedi gofyn i Lywodraeth Cymru sicrhau gwell mynediad at opsiynau tai diogel. Drwy ein Grŵp Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai ar y cyd, rydym wrthi'n ystyried ar y cyd â rhanddeiliaid pa ddarpariaeth a chymorth tai sydd eisoes yn bodoli a beth arall y gellir ei wneud. Mae hyn yn cynnwys:

- Comisiynu adolygiad ac adnewyddu fframwaith llety a chymorth y rhai sy'n gadael gofal Cymru Barnardo's i Gymru, a deunyddiau hyfforddiant ategol.
- Sicrhau y caiff gwell cymorth tai ei roi i'r rhai sy'n gadael gofal er mwyn helpu i reoli risgiau a chynnal annibyniaeth. Mae'n rhaid i ddarparwyr tai fod yn ymwybodol o'r hyblygrwydd ychwanegol y mae angen ei roi i'r rhai sy'n gadael gofal pan fydd pethau'n mynd o chwith, cynnig opsiynau amgen a helpu i osgoi achosion diangen o droi allan. Rydym am sicrhau bod y ddealltwriaeth hon yn gyffredin.

- Trefniadau i fynd ati'n rhagweithiol i ganfod a yw person ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, ar yr adeg y bydd yn cyflwyno ei hun, yn wynebu risg o fynd yn ddigartref.
- Sicrhau y cynhelir adolygiad amlasiantaethol bob tro y bydd person ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn cyflwyno ei hun i awdurdod lleol fel person digartref neu sy'n wynebu risg o fynd yn ddigartref.
- Sicrhau bod gallu a llwythi achosion Cyngorwyr Personol yng Nghymru yn ddigonol, a sicrhau bod gan bob person ifanc sy'n gadael gofal yr hawl i gael Cyngorydd Personol hyd at 25 oed, fel dyletswydd statudol.
- Datblygu gallu ariannol pobl ifanc i'w paratoi ar gyfer annibyniaeth ariannol fel y gallant reoli eu rhent a'u biliau.
- Sicrhau bod pob person ifanc sy'n byw'n annibynnol neu sy'n wynebu risg o fynd yn ddigartref yn cael pob cymorth.

6. Cyflawniadau System Gyfan

Clywed Llais y Plentyn

Mae Llywodraeth Cymru yn gwbl ymrwymedig i roi sylw dyledus i hawliau plant o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a sicrhau bod pob plentyn, ni waeth beth fo'i amgylchiadau, yn cael yr un cyfle i gyflawni ei botensial. Y dull cyffredinol o ymdrin â hawliau plant hwn sydd wedi cael ei ymgorffori yng ngwaith y rhaglen Gwella Canlyniadau i Blant a rhaglenni Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol dros Blant a Phobl Ifanc.

Rydym wedi anelu at ymgynghori â phlant a phobl ifanc a'u cynnwys yn ein gwaith cymaint â phosibl. Mae Is-gadeirydd Grŵp Cynghori'r Gweinidog yn oedolyn ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, ac mae wedi cael cryn ddylanwad. Mae llais ehangach plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal wedi cael ei hwyluso'n effeithiol a'i gynrychioli gan sefydliadau trydydd sector sy'n aelodau o Grŵp Cynghori'r Gweinidog, gan gynnwys Voices from Care, Plant yng Nghymru, y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol a Tros Gynnal.

Bright Spots

Er mwyn canfod yr hyn sy'n bwysig i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal a helpu i ddylanwadu ar welliannau i'r ffordd y darperir gwasanaethau lleol, rhoddodd y rhaglen Gwella Canlyniadau i Blant arolwg peilot ar waith yn 2018. Roedd y prosiect, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru gyda chefnogaeth Comisiynydd Plant Cymru, yn caniatáu i chwe awdurdod lleol yng Nghymru ddefnyddio arolwg 'Your Life Your Care' Bright Spots. Aeth yr awdurdodau lleol ati i wneud y canlynol:

- gwella'r profiad o ofal i bob plentyn sy'n derbyn gofal;
- rhoi llais i blant ar eu llesiant eu hunain;
- tynnu sylw at arferion 'Bright Spots' sy'n cyfrannu at ffyniant plant mewn gofal.

Arweiniodd y defnydd o'r arolwg gan 686 o blant a phobl ifanc mewn awdurdodau lleol yng Nghymru at lawer o ddirnadaethau pwysig:

- Mae'r rhan fwyaf o blant mewn gofal yng Nghymru yn teimlo'n sefydlog yn eu lleoliadau ac yn hapus gyda'u bywydau ar y cyfan. Fodd bynnag, nid oedd 36% o blant (4-7 oed) yn deall pam roeddent yn blant sy'n derbyn gofal.
- Roedd tua chwarter y plant a phobl ifanc am gael cyswllt amlach â rhiant – ond nid oedd bron un o bob pump (19%) o bobl ifanc (11-18 oed) a 15% o blant (8-10) yn cael unrhyw gyswllt â'r naill riant na'r llall.
- Roedd traean o bobl ifanc (11-18 oed) yn teimlo nad oeddent yn cael digon o gyswllt â'u brodyr/chwiorydd.
- Roedd chwarter y bobl ifanc (11-18 oed) wedi cael tri neu fwy o weithwyr cymdeithasol yn ystod y flwyddyn.

Rydym yn cydnabod bod angen inni gael gwell data er mwyn deall profiadau a chanlyniadau plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal, ac mae hyn wedi bod yn flaenoriaeth allweddol wrth lunio ein Fframwaith Perfformiad a Gwella newydd i awdurdodau lleol. Bydd y fframwaith yn cynnwys cyfres o ddata metrig newydd a fydd yn canolbwyntio ar nifer y plant sy'n mynd drwy'r system gofal cymdeithasol a'r ffordd y maent yn symud drwyddi, a bydd dull newydd

o gynnal yr Arolwg o Ddinasyddion yn cael ei gomisiynu, yn barod i'w lansio ym mis Ebrill 2021. Bydd yr arolwg newydd yn casglu amrywiaeth o safbwyntiau gan blant ar eu profiadau o ofal a chymorth, a bydd yn sicrhau bod awdurdodau lleol yn mynd ati'n rhagweithiol i geisio barn plant a'i defnyddio i lywio gwelliannau a newid fel rhan o'r dull newydd o ymdrin â data a thystiolaeth.

Fframwaith Perfformiad Plant

Yn 2018, sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen i ddatblygu set o ddangosyddion i helpu Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Wella Canlyniadau i Blant i fesur cynnydd a chanlyniadau yn erbyn ei raglen waith. Nododd y grŵp nifer o ddangosyddion o'r ffynonellau data a oedd yn bodoli eisoes (data'r Cyfrifiad, fframweithiau perfformiad a ffurflenni blynyddol), a oedd yn cwmpasu gwasanaethau cymdeithasol plant, lleoliadau, iechyd ac ati, a allai helpu i roi darlun o newidiadau mewn canlyniadau i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

Bu nodi'r dangosyddion a'r themâu hyn yn gymorth i lywio cam cyntaf y fframwaith perfformiad a gwella newydd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, a ddaeth yn gyfraith gwlad ym mis Ebrill 2020 gyda chod ymarfer a oedd yn ymwneud â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r rhaglen bellach wedi cyrraedd ei hail gam, a fydd yn rhoi dealltwriaeth well o ran sut i atal plant rhag dod yn blant sy'n derbyn gofal, a rheoli'r rhai sy'n dod yn rhan o'r system ofal, gan ddatblygu dulliau ychwanegol o gofnodi a dadansoddi data. Bydd cam 2 yn rhedeg drwy gydol 2021-22, a chaiff cynhyrchion newydd eu datblygu i'w cyflwyno yn ystod y flwyddyn neu ar ddechrau 2022-23.

Dull Cenedlaethol o Ddarparu Gwasanaethau Eirioli Statudol i Blant a Phobl Ifanc

Mae Grŵp Cynghori'r Gweinidog wedi cefnogi'r gwaith o roi'r Dull Cenedlaethol o Ddarparu Gwasanaethau Eirioli Statudol i Blant a Phobl Ifanc (NASA), sef dull safonol o ddarparu gwasanaethau eiriolaeth statudol sy'n cael ei gyflwyno gan y chwe menter gydweithredol gwasanaethau cymdeithasol ranbarthol, a mabwysiadu'r Siarter Cyfranogiad Genedlaethol/nod barcut.

Gyda chyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, mae awdurdodau lleol bellach yn comisiynu gwasanaethau eiriolaeth annibynnol ym mhob rhanbarth yn unol â'r Dull Cenedlaethol ac yn hyrwyddo'r 'cynnig gweithredol'. Mae hyn yn sicrhau bod gan bobl ifanc a phlant yr hawl i gael cynnig gweithredol o eiriolaeth gan Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol Statudol pan fyddant yn dod yn blant sy'n derbyn gofal neu'n destun ymholiadau amddiffyn plant sy'n arwain at Gynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol.

Daeth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Eiriolaeth i ben ym mis Ionawr 2021. Mae dull gweithredu newydd yn dechrau ym mis Ebrill 2021 a bydd yn cyflwyno fforymau rhanbarthol, a fydd mewn sefyllfa well i sicrhau bod y ddarpariaeth yn briodol i anghenion yr ardal. Caiff hyn ei oruchwylio gan fforymau cenedlaethol, a fydd yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn.

Safonau Ymarfer Cenedlaethol ar gyfer Swyddogion Adolygu Annibynnol

Yn 2018, cyhoeddodd AfA Cymru Safonau Ymarfer Cenedlaethol a Chanllaw Arferion Da, a oedd yn nodi sut y dylai Swyddog Adolygu Annibynnol fonitro, adolygu a chefnogi cynllun gofal a chymorth y plentyn neu'r person ifanc. Yn y Safonau Ymarfer, nodwyd y cyfrifoldebau ar awdurdod lleol i sicrhau bod Swyddogion Adolygu Annibynnol yn gallu ymgymryd â'u gwaith. Mae'r Safonau a'r Canllaw Arferion Da yn diffinio'n glir rôl, swyddogaeth, statws a chylch gwaith y Swyddogion Adolygu Annibynnol sy'n helpu i reoli'r broses cynllunio ac adolygu ar gyfer pob plentyn sydd mewn gofal, fel y gallant gyflawni eu rôl i'r safon uchaf.

Safonau Ymarfer Cenedlaethol i Ymwelwyr Annibynnol

Yn 2020, cyhoeddodd NYAS Cymru Safonau Ymarfer Cenedlaethol a Chanllawiau ar gyfer darparu Ymwelwyr Annibynnol yng Nghymru. Mae'r safonau hyn yn egluro rôl a swyddogaethau ymwelwyr annibynnol yng Nghymru a sut y gallant gyfrannu at ganlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc. Maent yn nodi'n fanwl rôl ymwelwyr annibynnol a chyfrifoldebau awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau er mwyn helpu i sicrhau y gall ymwelwyr annibynnol weithio yn y ffordd fwyaf effeithiol a hyrwyddo eu rôl bwysig. Nod y safonau yw gwella ansawdd ymarfer ymwelwyr annibynnol, gan sefydlu dull gweithredu cyson sy'n seiliedig ar hawliau lle y caiff pob plentyn a pherson ifanc cymwys gynnig y posibilrwydd o gael ymweliadau gan wirfoddolwr annibynnol addas a'r cyfle i feithrin cydberthynas hirdymor ag ef. Mae angen gwneud rhagor o waith i roi'r safonau ar waith yn ymarferol er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn cael cynnig ymweliad gan ymwelydd annibynnol.

Plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches

Rydym wedi gweithio'n agos gyda Phartneriaeth Ymfudo Strategol Cymru, CLILC, awdurdodau lleol a'r Swyddfa Gartref mewn perthynas â chymorth i blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches. Rydym wedi buddsoddi bron £600,000, sydd wedi cefnogi'n uniongyrchol leoliadau i blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches naill ai drwy Gynllun Dubs (a.67 o Ddeddf Mewnffudo 2016), drwy groesi'r Môr Udd, neu drwy ffyrdd eraill o gyrraedd yn ddigymell. Mae hefyd wedi ariannu gwaith i feithrin gallu gweithwyr cymdeithasol i gefnogi'r plant a'r bobl ifanc hyn. Mae hyn yn cynnwys:

- canllawiau i weithwyr cymdeithasol, gofalwyr maeth, a'r plant a'r bobl ifanc eu hunain, yr olaf mewn deg o ieithoedd:
llyw.cymru/plant-ar-eu-pen-eu-hunain-yn-ceisio-lloches-canllawiau-i-weithwyr-proffesiynol
- nodyn briffio ynglŷn â hawliau plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches mewn perthynas â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014: llyw.cymru/y-gyfraith-ar-ofal-chymorth-plant-digwmni-syn-ceisio-lloches
- canllaw i ofalwyr maeth presennol a darpar ofalwyr maeth i blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches:
www.thefosteringnetwork.org.uk/sites/
- hyfforddiant ar gyfraith lloches ac ymfudo fel y mae'n ymwneud â phlant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches a'u hawliau, sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a'i ddarparu gan Bartneriaeth Ymfudo Strategol Cymru
- hyfforddiant ar asesu oedran, sy'n cael ei ariannu a'i ddarparu gan Lywodraeth Cymru a Phartneriaeth Ymfudo Strategol Cymru

- wythnos dysgu a gweithgareddau i blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches, sy'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru a'i threfnu gan Bartneriaeth Ymfudo Strategol Cymru a'i phartneriaid
- cyfres o grwpiau ffocws i ddeall safbwyntiau plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches am eu profiad o wasanaethau cyhoeddus, sy'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru a'i threfnu gan Bartneriaeth Ymfudo Strategol Cymru a'i phartneriaid.

Yn ogystal ag ystadegau ffurfiol Llywodraeth Cymru, rydym wedi mynd ati i sefydlu trefniadau casglu data ar blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches drwy raglen y Prif Weinidog ar ostyngiadau disgwylidig o ran plant sy'n derbyn gofal. Mae'r data hyn yn ddefnyddiol o ran deall llif y plant a'r bobl ifanc hyn i mewn i Gymru a'u lleoliad, ond mae rhai bylchau, yn enwedig o ran data ar y rhai sy'n gadael gofal a lleoliadau y tu allan i'r ardal.

Gan edrych i'r dyfodol, byddwn yn parhau i weithio gyda Phartneriaeth Ymfudo Strategol Cymru, CLILC, awdurdodau lleol a'r Swyddfa Gartref i gefnogi'r gwaith o ddatblygu Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol i blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches sy'n gweithio i Gymru. Byddwn hefyd yn cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig o'r Pecyn Cymorth Asesu Oedran ac yn adolygu'r ffordd rydym yn casglu data ar blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches.

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Yn ystod tymor y Senedd hon, cynhaliodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ymchwiliad i wariant a gwerth am arian gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Cynhaliwyd yr ymchwiliad hwn yn ystod gwanwyn a haf 2018, a chyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ym mis Tachwedd 2018. Ystyriodd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2019, a chynhaliodd y Pwyllgor sesiwn dystiolaeth arall gyda Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2020 i drafod cynnydd o ran cyflawni argymhellion y Pwyllgor. Helpodd Grŵp Cynghori'r Gweinidog i roi trosolwg o'r argymhellion, gan integreiddio gweithgarwch yn ei raglen waith lle y bo'n briodol.

Gwefan Gwella Canlyniadau i Blant

Un o argymhellion y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus oedd y dylai fod mwy o wybodaeth ar gael a mwy o dryloywder ynglŷn â'r rhaglen Gwella Canlyniadau i Blant. Er mwyn rhannu gwersi a chanlyniadau'r rhaglen, cyhoeddwyd adroddiad blynyddol yn 2019 a lansiwyd gwefan i ymarferwyr a'r cyhoedd, a gynhelir gan Gofal Cymdeithasol Cymru (www.gofalcymdeithasol.cymru/gwella-gwasanaethau/rhaglen-gwella-canlyniadau-i-blant). Mae hwn yn adnodd defnyddiol ac mae'n cynnwys trosolwg o'r rhaglen, ymchwil, tystiolaeth a chyflawniadau hyd yma er mwyn helpu i lywio ymarfer a datblygu proffesiynol.

7. Casgliad

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at hyd a lled y gwaith sy'n cael ei wneud drwy'r rhaglen Gwella Canlyniadau i Blant, gyda chymorth Grŵp Cyngori'r Gweinidog. Mae'n amlwg bod ein dull gweithredu strategol wedi bod yn llwyddiannus o ran codi proffil plant sy'n derbyn gofal ar bob lefel a thynnu sylw at y cyfraniadau sydd eu hangen mewn sectorau a phortffolios polisi.

Yn ystod y cyfnod hwn, cyflwynwyd dau Bapur gan y Cabinet (*Gwella Canlyniadau i Blant [2017] ac Ymestyn Rhianta Corfforaethol ar draws y Sector Cyhoeddus [2019]*), a oedd yn nodi'r angen am ddull gweithredu trawslywodraethol, traws-sector strategol ar bob lefel o'r llywodraeth. Nododd y rhain yn glir fod angen rhoi lles plant wrth wraidd pob penderfyniad polisi, gan gydnabod mai plant yw dyfodol Cymru.

Wrth inni nesáu at ddiwedd tymor y Senedd hon a chylch oes y rhaglen, mae'n amserol ystyried beth sy'n dod nesaf. Bu llawer o ddatblygiadau cadarnhaol o ganlyniad uniongyrchol i'n harweinyddiaeth drawslywodraethol. Mae angen inni bellach fynd i'r lefel nesaf er mwyn sicrhau bod pob maes polisi yn gwneud gwahaniaeth i helpu i leihau nifer y plant mewn gofal fel ymrwymiad polisi craidd. Er mwyn helpu i sbarduno'r gweithgarwch hwn ar lefel polisi, mae Llywodraeth Cymru yn sefydlu Bwrdd Cyflawni er mwyn helpu i hyrwyddo'r gweithgarwch trawslywodraethol sydd ei angen i gefnogi gwell canlyniadau i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

Bydd angen i grŵp ehangach o randdeiliaid, yn debyg i Grŵp Cyngori'r Gweinidog, lywio'r gwaith sy'n dal i fynd rhagddo. Er nad yw'n rhestr gynhwysfawr, mae'r eitemau etifeddol canlynol wedi cael eu nodi'n glir:

1. Lleihau nifer y plant mewn gofal yng Nghymru
2. Darpariaeth Maethu Ddigonol
3. Llety i blant ag anghenion cymhleth
4. Parhau i ddatblygu gwasanaethau a chymorth mabwysiadu
5. Cyrhaeddiad Addysgol
6. Rhianta Corfforaethol
7. Opsiynau tai i bobl ifanc sy'n gadael gofal

Bydd angen ystyried ymhellach y fforwm trawslywodraethol priodol sydd ei angen. O ystyried y ffocws clir ar atgyfnerthu prosesau rhianta corfforaethol drwy'r sector cyhoeddus cyfan yn ystod tymor y Senedd nesaf, ac effaith ein dull gweithredu traws-sector yn ystod y tymor hwn, dylid ystyried thema rhianta corfforaethol glir i'r gwaith a'r aelodaeth.

Gwyddom fod effaith COVID-19 yn debygol o fod yn hirhoedlog ac y bydd yn parhau i roi pwysau enfawr ar blant a theuluoedd sy'n agored i niwed a'r gwasanaethau sydd ar waith i'w cefnogi. Bydd lliniaru effaith y pandemig yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol yn ystod tymor y Senedd newydd.